

ECO'R WYDDFA

RHIF 298

MAWRTH 2003

PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn

- Rygarugasorws t. 7
- lluniau Digon Teg t. flaen
- newyddion Brynrefs t. ganol

DIGON TEG!



Wedi misoedd o waith caled gan aelodau, tiwtoriaid, rhieni a chyfeillion daeth cynhyrchiad diweddaraf Rygarug - 'Digon Teg!' - yn fyw ar lwyfan Theatr Seilo, Caernarfon ar nos Wener 21ain a nos Sadwrn 22ain o Chwefror. Daeth yn agos i chwe chant o bobl i'r Theatr dros y ddwy noson a mawr oedd eu canmoliaeth o'r perfformiad.

Hanes tylwythen deg unigryw sy'n dod yn fyw ar noson stormus yn y Scfydliad Coffa, Llanrug yw 'Digon Teg!'. Gyda chymorth y dylwythen mae aelodau Rygarug yn mynd ar daith anhygoel i ddarganfod y sioe berffaith.

Treuliwyd yr wythnos hanner tymor yn Theatr Seilo yn ymarfer a pharatoi ar gyfer y sioe. Diolch yn fawr i'r holl aelodau am eu amynedd a'u parodrwydd i deithio'n ddyddiol ar y bws o Lanrug i Gaernarfon. Roedd yn waith caled ac ar brydiau yn ddiflas ond roedd yn braf clywed y plant yn arfer termau theatrig a thermâu technegol yn hollol naturiol wrth ymuno yn y wythnos!

Daeth nifer o wyneb

adnabyddus i gymryd rhan yn y sioe. Cododd John Eifion ofn ar bawb fel y 'Dyn Drwg yn y Caws', roedd y gynulleidfa wrth eu boddau gyda Emyr Gibson fel y Brenin Ri a daeth Elfed Morris, *Y Self Made Man*, ag

ychydig o razzamatazz i'r llwyfan. Roedd yn braf gweld plant, pobol ifanc ac oedolion o bob rhan o Ddyffryn Peris yn cyd-weithio fel un tim.

Wel, mae'r sioe drosodd ond nid dyna'r stori i Rygarug o bell

ffordd. Mae nifer o weithdai ar y gweill dros y misoedd nesaf - Syrcas, Band Samba a Dawns a lot o hwyl ar ôl yr holl waith caled. Yn yr haf byddwn yn ymweld â set Rownd a Rownd ym Mhorthaethwy.

Ar Fehefin 14eg yn Llanberis byddwn yn ceisio gosod record ar gyfer y *Guinness Book of Record Breakers* drwy gael y nifer fwyaf i ddawnsio y Macarena, Dawns Rygarug ac craill. Fe fydd gwestai arbennig o'r cyfryngau a byd chwaraeon yn dod yno i'n cynorthwyo. Mwy o fanylion i ddod!

Os hoffech ymuno yn yr hwyl cysylltwch â Rygarug yn 12 Stryd Twll yn y Wal, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RF neu ffoniwch (01286) 675766 TEULU NEWYDD. Syndod a llawenydd yw gweld mwg yn dod o simdde Hafoty Cwm Brwynog unwaith eto a mawr yw'r croeso i'r teulu bach newydd sydd wedi ymgartrefu ym mherfeddion y Cwm. Dymunwn y gorau i Geraint, Eira a'r plant, Gweno Medi, Siôn Ifan ac Ellis Arddu. Pwy fuasai yn meddwl fod yna Ellis yn y Foty unwaith eto.

Gwaun Cwm Brwynog



Syndod a llawenydd yw gweld mwg yn dod o simdde Hafoty Cwm Brwynog unwaith eto a mawr yw'r croeso i'r teulu bach newydd sydd wedi ymgartrefu ym mherfeddion y Cwm. Dymunwn y gorau i Geraint, Eira a'r plant, Gweno Medi, Siôn Ifan ac Ellis Arddu. Pwy fuasai yn meddwl fod yna Ellis yn y Foty unwaith eto.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 298
MAWRTH 2003**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
78 STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard L. Jones, 5 Y Ddol, Bethel.
(01248) 670445

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (077263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanfynnon, Llanrug (075605)

TREFNYDD DWYDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (071550)

TRERFYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Elithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (074830)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (050570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Ellis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (070580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (077438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (050788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (072275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (070292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(070394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (070740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(075384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (071820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(072407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (072276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (050570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAWRTH 18

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAWRTH 27

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Chwefror	21 Ionawr	30 Ionawr	Cwm-y-glo	Iris Rowlands	872275
Mawrth	17 Chwefror	27 Chwefror	Llanrug	Eifion Roberts	676339
Ebrill	18 Mawrth	27 Mawrth	Waunfawr	Nan Roberts	650570
Mai	21 Ebrill	1 Mai	Deiniolen	Jean P. Jones	871550
Mehefin	19 Mai	29 Mai	Brynrefail	Gwyn Hefin Jones	870848
Gorffennaf	16 Mehefin	26 Mehefin	Bethel	Geraint Elis	(01248) 670726
Awst	—	—	—	—	—
Medi	18 Awst	28 Awst	Dinorwig	Marian Jones	870292
Hydref	22 Medi	2 Hydref	Penisarwaun	Ann Evans	872407
Tachwedd	20 Hydref	30 Hydref	Llanberis	Gwilym Evans	870625
Rhagfyr	17 Tachwedd	27 Tachwedd	Caeathro	Clive James	677438
Nadolig / Ionawr	8 Rhagfyr	18 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones (Prifathro)	672381

Llythyr

Bryn Hebog
13 Woodend

Llanmiloe, Caerfyrddin

Annwyl Olygydd,

Atgofion! Rocddwn yn myfyrio
dros gliw cyntaf Crocsair
Chwefror yn *Eco'r Wyddfa* ac yn
sylweddoli fy mod i wedi clywed
y gair 'cacamwncei' o'r blaen –
dros ddeng mlynedd a deugain
yn ôl.

Yr achlysur? Ro'n i'n ifaciwi
o Lan y Mersi amser y bomio
mis Mawrth 1941. Cafodd rhan
fwyaf y teulu groeso ar fferm
fach yn Nwygyfylchi am naw
mis, ac mae'n amhosibl angofio
caredigrwydd Mr a Mrs
Thomas, Glyn Percyn.

Roedd yn arfer gennym
gerdded i siop fach y pentref i
brynu 'sgod a sgloed' – neu jyst
dysgled o sgloedion – ac ambell
waith diod dant y llew a
chacamwncei cartref. Dyna'r gair
a ddaeth a llif o atgofion!

Blynyddoedd yn hwyrach, ar
ymddeol, daeth fy ngŵr a fi i
Dde Cymru iddo fe helpu yn yr
Eglwys. Rydym yn dysgu'r iaith
– iaith yr Hwntws efallai – ac yn
falch o'r cyfle i roi hwb iddi hi.

Mae ŵyr pum mlwydd i ni yn
Llanberis sy'n siarad Cymraeg â
ni, a dyma un rheswm i fi brynu
Eco'r Wyddfa. Cawn fwynhad
wrth ddarllen y papur, felly
diolch i chi'r tîm i gyd.

Pat Owen (Mrs)

Cymuned

8 Ffordd Stanley

Aberystwyth

Ceredigion SY23 1LS

Annwyl Ddarllenwyr,

Ffair Brotest y Cyfrifiad

Rwy'n anfon gair atoch i roi
gwybod i chi am Ffair Brotest
sy'n cael ei threfnu gan
Cymuned i dynnu sylw at
ganlyniadau tebygol ffigyrau
iaith y Cyfrifiad, ac i apelio am
eich cefnogaeth.

Bydd y ffigyrau yn dangos
cwmp arall yn niferoedd y
cymunedau Cymraeg, ac mae'n
hollbwysig ein bod yn dangos
maint ein pryder a'n
hanfodlonrwydd ynglŷn â'r
sefyllfa argyfyngus sydd ohoni.

Mae Cymuned yn
benderfynol fod Llywodraeth y
Cynulliad a'n cynrychiolwyr yn
dechrau cymryd sylw o'r
bygythiadau sy'n wynebu
dyfodol ein cymunedau a'n
iaith, ond mae angen llais cryf i
gyfleu'r neges.

Cynhelir y Ffair Brotest ar y
Maes yng Nghaernarfon am
12.00 Ddydd Gŵyl Dewi.
Ymysg y siaradwyr fydd Seimon
Glyn, Twm Morys a Magi Lewis
o Gaernarfon, a bydd cantorion
a digon o hwyl i'w gael hefyd!

Gobeithiwn yn fawr y
gwelwn ni chi ar y Maes yng
Nghaernarfon ar Ddydd Gŵyl
Dewi – allwch chi ddychmygu
ffordd mwy dymunol o
dreulio'n dydd cenedlaethol?

Yn ddiffuant

Gwen Angharad Jones
ar ran Cymuned

Y Lolfa

Talybont

Ceredigion SY24 5AP

Annwyl Gyfaill

Dyddiaduron 2004 Y Lolfa

Mae Dyddiaduron 2004 Y Lolfa
ar waith ar hyn o bryd. Er mwyn
i'r rhestrau defnyddiol o
gyfeiriadau cwmnïau a
sefydliadau Cymreig sydd yn y
dyddiaduron fod mor gywir â
phosib, rydym yn ddibynol ar
ddefnyddwyr y dyddiaduron i
roi gwybod inni am unrhyw
wybodaeth newydd neu
gywiriad.

Cysylltwch â Marek Roberts yn
Y Lolfa drwy lythyr neu e-bost
(dyddiaduron@yloffa.com) cyn
Dydd Gŵyl Dewi 2003 gydag
unrhyw wybodaeth newydd i'w
ychwanegu yn rhad ac am ddim.

Hoffwn eich atgoffa hefyd
fod croeso i gwmnïau a
sefydliadau hysbysebu yn y
dyddiaduron am bris rhesymol
iawn. Mynnwch fwy o

wybodaeth am ein telerau drwy
ymweld â'n gwefan
(www.yloffa.com) neu ffonio
Dilwyn Phillips, Rheolwr
Gwerthiant Y Lolfa (01970
832304).

Yn ddiffuant

Marek Roberts
Golygydd

Cymanfa Ganu Talgylch yr Eco ar y Teledu

Yn dilyn awgrym Rol Williams
mewn llythyr i'r *Eco* ddiwedd y
flwyddyn, deallir fod trefniadau
yn awr ar droed i gynnal
Cymanfa Ganu yng Nghapel
Coch, Llanberis nos Fawrth,
Mai 6.

Bydd cwmni Teledu Elidir yn
recordio dwy raglen o *Dechrau
Canu, Dechrau Canmol*, y noson
honno. Yn y rhaglen gyntaf,
canolbwyntir ar emynau a
thonau gan rai oedd yn
gysylltiedig ac ardal *Eco'r
Wyddfa*, gwŷr fel Gutyn Arfon;
William Owen, Prysgol,
Caeathro; R. R. Morris, Betws
Garmon; T. Rowland Hughes
(eleni yn ganmlwydd ei eni) ac
eraill. Bydd yr ail gymanfa, a
recordir hefyd ar 6 Mai, yn
canolbwyntio ar thema
arbennig – o bosibl y
Diolchgarwch.

Cynhelir ymarfer yn ystod yr
wythnos flaenorol. Mae'r
pwyllgor sy'n trefnu'r ddwy
Gymanfa yn taer erfyn am
gefnogaeth trigolion talgylch yr
Eco, gan fod ei llwyddiant yn
dibynnu ar gael llond y capel ar
y noson, a gwneir apêl arbennig
iawn am gefnogaeth y chwe
chôr sydd yn y fro, sef Côr
Meibion Llanberis, Côr Eryri,
Côr y Waunfawr, Lleisiau'r
Gweunydd, Lleisiau Lliwedd a
Pharti Clychau'r Grug. Dyma
gyfle i drigolion yr ardal
glodfori cyfraniad hynod rhai o
drigolion yr ardal i Ganiadaeth
y Cysegr yng Nghymru a'r un
modd i ddangos dawn gerddorol
trigolion cyfoes talgylch *Eco'r
Wyddfa*.

Bydd rhagor o fanylion am y
Gymanfa yn rhifyn mis nesaf o'r
Eco, ond yn y cyfamser nodwch
y dyddiad.

RHODDION

£25: Dr W.H. Munro, Corby, Northampton;

£20: Mrs Owen Jones, Y Garth Ceunant.

£10: Mrs Mair Huws, Glasgoed, Llanrug

£5: Mrs Nancy Jones, 21 Stryd Newton, Llanberis; Parch a Mrs Ronald Wyn Roberts, Y Rhyll; Gareth a Melanie Roberts, Deiniolen.

£3: Elena a Darren, Tŷ Plismon, Deiniolen; Bethan, 66 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Maggie Lewis, Llanrug.

£2: Haf Thomas, Buarthau, Llanrug.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS

Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y Côr nos Lun, 17 Chwefror dan gadeiryddiaeth Aneurin Jones. Cafwyd adroddiad llawn a manwl gan yr ysgrifenyddes, Mrs Hefina Jones sydd hefyd yn gyfeilyddes i'r côr. Diolchwyd iddi am ei gwaith yn ystod y flwyddyn, ac hefyd am ei phresenoldeb (dim ond un ymarferiad mae Hefina wedi ei golli mewn cyfnod o 13 mlynedd).

Yna fe gafwyd adroddiad y trysoryddion, Emerson ac Awel Hughes (nid oes curo ar y ddau yma). Roedd yn werth gweld y daflen, gyda'r holl fanylder. Diolchwyd iddynt hwythau am eu gwaith.

Cafwyd adroddiad llawn hefyd gan Raymond Jones (Cynilo) ac hefyd Bert Jones (Bonus Ball) a diolchwyd iddynt hwythau yr un modd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Mair Huws (arweinydd) am ei gwaith ac am ei hamynedd. Hefyd i Hefina Jones, cyfeilyddes y côr. Diolchwyd hefyd i bwyllgor merched y côr am eu gwaith yn casglu arian tuag at gostau'r côr. Ail-etholwyd yr holl bwyllgor a diolchwyd iddynt am eu gwaith a mawr hyderwn y bydd y flwyddyn sydd o'n blaenau yn un hapus a llwyddiannus iawn.

G. Lewis

Briwsion Byd Natur Dafydd Guto

Ci Sy'n Bwyta Gwair



Ceir bod defaid a gwartheg, i enwi rhai creaduriaid, yn ail-fwyta'r hyn a fwyntant. Hwn yw'r cyflwr 'cnoi cil' fel y'i gelwir. Clywais hefyd fod y diweddar ddramodydd Gwyddelig, George Bernard Shaw, yn bwyta gwair. Cymeraf mai golchi'r llafnau gwair mewn dŵr croyw glân a wnâi, cyn mynd ati i'w bwyta. Dywedir mai'r unig amcan i'r pendics dynol, ar un amser, oedd ei fod o gymorth i'r stumog dreulio bwyd, hynny yw, yn y cyfnod pell yn ôl hwnnw pryd roedd dyn yn awchu am laswellt i'w fwyta yn hytrach na chig anifeiliaid.

Dro'n ôl, wyddoch chi, clywais y dywediad rhyfedd ar y naw canlynol, mai arwydd o wlaw ydy gweld ci'n bwyta gwair! 'Ci sy'n ymborthi ar wair a ddug glaw i'w ganlyn.' Anaml y bydd ci yn cnoi ei luniaeth. Tuedda i draflyncu'r cyfan a roir iddo. Bydd y cig yn mynd drwy'i esoffagus i'w stumog, ble y ceir ensymau sydd o gymorth pellach i falurio a threulio'r bwyd. Nid oes â wnelo ci sy'n bwyta gwair affliw o ddim byd â darogan glaw! Ebc H. Lloyd Owen yn *Cant o Gwestiynau Seiat Byd Natur* (gol.) E. V. Breeze Jones, 1971: *Gan amlaf, anhwylder ar y stumog yw'r achos, ac yn aml y mae arogl anhwylder ar anadliad y ci, a hynny'n codi o'r stumog. Dyna ffordd o wella'r*

stumog ac mae'r ci yn bwyta'r glaswellt i lanhau leinin y stumog. Mi gewch gŵn yn bwyta glaswellt pan fyddant yn cael eu poeni gan lyngyr, ac o bosib fod hynny eto'n cael effaith arnynt ac yn lliniaru poenau llyngyr...

Ond ai bwyta cig yn unig a wnâ cŵn? Nage wir! Yn y gwyllt, y cyntaf peth a wnânt, unwaith y lledir anifail, ydyw chwilio am ei goluddion. Hoff ganddynt y rwmen, sef stumog gyntaf yr anifail, a gorau oll os yw'r creadur a laddwyd yn fwytawr llysiau. Y gwir amdani yw bod cŵn gwyllt yn bwyta cynnwys llysieuol stumog eu hysglyfath, a'r oll a cplcswyd ynddo, cyn hyd yn oed ddechrau sytyried bwyta cyhyrau'r anifail marw. Nid oes dwywaith amdani bod glaswellt yn cynnwys maeth a brasfwd. Ym myd yr hen gi nid oes â wnelo hyd i gyd, welwch chi, ddim byd â dyfodiad y glaw!



STRYFFIG PRYNU CAR

Mi ddylsai'r orchwyl o brynu car fod yn un bleserus. Ond nid felly y bu i deulu o Lanberis. I Gyffordd Llandudno yr aeth tad a'i ferch i brynu'r car. Ar ôl archwilio un yn ofalus - aeth y teulu bach i mewn iddo i weld pa mor gyfforddus ydoedd. Ond O! Y fath sioc. Pan ddaeth yn amser dod o'r car - roedd pob drws ar glo. Yn ôl rhai, clywyd llais gwrywaidd yn pledio o bellter, 'EU-RWYN sdyd yn fama - Help!'

Y ffaith yw nad oedd y darpar brynwyr wedi sylweddoli fod 'child lock' yn gweithredu ar y car! Does dim gwir yn y ffaith y bu bron i'r Darans orfod gohirio un o'u gemau Sadyrnol gan fod y 'fixture list' ym mhoced y gwron.

Cystadleuaeth Gŵyl Ddewi

Y llythyren E ac E yn unig!


(1) Rhestrwch yn y Gymraeg enwau adar sy'n dechrau hefo'r llythyren E;

(2) Pa un o'r adar (sydd hefo E ar ddechrau ei enw) sy'n castellu?

• Y Prif Wobr - *Cloi'r Camera*, sef Pedwerydd Dyddiadur Naturiaethwr y diweddar Ted Breeze Jones, a gyhoeddwyd gan Wasg Dwyfor yn Nhachwedd 2002.

• Gwobr Gysur - nifer o stampiau post Byd Natur - gwledydd dros y dŵr. Dyddiad cau fydd dydd Gwener, 14 Mawrth 2003. Anfonwch eich atebion, hefo'ch enw a'ch cyfeiriad llawn, at Dafydd Guto, Neuadd Glasgoed, Llanrug, Gwynedd LL55 3BB.

Os bydd mwy nac un cynnig cywir dyfernir trwy dynnu enwau'r enillwyr o Grochan Byd Natur.



Wavell Roberts CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Gymni teuluel gydag 20 mlynedd o brofiad o
redog Pwysnau Gwylliau oll-gynhwysol

O SIAMBAR SELWYN

Ar y dydd cyntaf o'r Mis Bach mi fûm i ar daith gerdded. Taith dros aceri o dir mwdlyd. Pwrpas y daith oedd ymweld â safleoedd a fyddai yn debygol o fod yn addas ar gyfer cartrefu Prifwyl 2005. Roedd 'na tua deg ar hugain ohonom ar y bws a gychwynodd o'r Faenol am hanner awr wedi naw, yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Llywio, Aelodau o Gyngor yr Eisteddfod, ynghyd â'r Swyddogion. Ymlaen a ni i Glan Dwyfach, yna i Glynllifon, ac yn ôl i'r Faenol tua tri o'r gloch y pnawn.

Roedd hi'n syndod i mi ac i amryw eraill o'r Pwyllgor Llywio fod yr anghenion ynglŷn â lleoliad Maes yr Eisteddfod wedi newid cymaint yn ystod y blynyddoedd diwetha 'ma. Bellach mae angen tua 130 i 140 acer ar gyfer yr holl feysydd. Mae angen 30 acer o dir gwastad ar gyfer safle y pafiliwn yn unig.

Wrth gwrs fel y gwyr pob un ohonom sy'n mynychu'r Brifwyl yn flynyddol, y broblem fawr ydi *Trafnidiaeth*. Disgwylir rhwng 5,000 a 6,000 o geir yn ddyddiol ac mae angen 35 acer o feysydd parcio. Bydd tua 50 o fysiau y dydd yn ymweld â'r Wyl. Rhaid fydd cael maes carafanau o tua 35 i 40 acer ar gyfer 600 i 700 o garafanau. Hefyd mae angen tua 25 acer ar gyfer Maes yr Ifanc, a hwnnw heb fod yn rhy agos i brif faes yr Eisteddfod.

Beth arall sydd ei angen? Wel, digonedd o gyflenwad dŵr Fe ddefnyddir dros 380,000 galwyn o ddŵr dros gyfnod yr Eisteddfod. A choeliwch neu beidio gwaredir tua 430,000 galwyn o garthffosiaeth yn ystod yr

wythnos

Mae 'na nifer o bethau eraill i'w hystyried yn ogystal, fel sicrhau nad oes gwifrau trydan yn croesi uwchben nac o dan y ddaear. Dim pibellau nwy yn croesi'r tir, a dim adfeilion hynafol ar, nac o dan, y tir. Ydi mae hi'n dipyn o broblem i sicrhau safle addas o safbwynt hwylustod a hefyd o safbwynt rheolau diogelwch y dyddiau hyn.

Tydi'r penderfyniad terfynol ynglŷn â safle ddim wedi ei wneud eto, ond mi fydd 'na gyfarfod yn gynnar ym mis Mawrth i drafod y mater. Pan awgrymwyd dro yn ôl mai'r Faenol fyddai'r safle fe gafwyd sawl protest o ardaloedd Pen Llŷn a Dwyfor am fod y Faenol yn rhy bell. Tybed? Cofiw'n i Gyngor Cymuned Pentir estyn gwahoddiad i'r Wyl hefyd.

Mae hi bron yn amhosibl bellach, oherwydd maint yr ŵyl, a gofynion diogelwch, i sicrhau maes addas ar gyrrion tre neu ddinas. Eleni mae'r brifwyl ym Maldwyn ar lecyn o dir gwastad ger pentref Meifod. Oes 'na unrhyw ardal erioed mor wasgaredig â Maldwyn a'r Gororau wedi mentro estyn gwahoddiad i'n Prifwyl? Oes, mae yna gryn bellter o Lanidloes a Machynlleth i Feifod, ond yn ôl pob adroddiad, cydweithredu hapus sydd wedi bod ynghanol mwynder Maldwyn, a neb yn pwdu na llyncu mul oherwydd y pellter i Feifod.

Yn ogystal â Chyngor Cymuned Pentir, roedd Clwb y Bont, Pwllheli wedi estyn gwahoddiad i'r Wyl ddod i Arfon / Dwyfor hefyd, gan mai hanner can mlynedd yn ôl, yn 1955, y bu'r Eisteddfod yno ddiwetha. Bu hefyd ym Mro Dwyfor yn 1975 ac ym Mro Madog yn 1987.

Yr ochor arall i'r sir. Bu yng Nghaernarfon yn 1959 ac 1979, Bangor 1971, ac os ydi Llandudno o fewn i ddalgylch 'yr hen Sir Gaernarfon', bu'r Eisteddfod yno yn 1963.

Chawsom ni ddim glaw ar ein pererindod eisteddfodol. Roedd hi'n oer ac yn heulog ac yn wlyb dan draed ar y tri safle. Gobeithio y bydd yr haul yn gwenu ar y safle a ddewisir yn Awst 2005. Ia wir. 'A Oes Heddwch?' Oes gobeithio.

Gefnogwch
ein
Hysbysebwy

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cyfarfu'r Cyngor yn ysgol Penisa'rwaun nos Fawrth y 7ed o Ionawr. Yn absenoldeb anorod y Cadeirydd, llywyddwyd y cyfarfod gan y Cyngorydd Len Jones. Offrymwyd y weddi gan y Clerc. Derbyniwyd tri ymddiheuriad.

Croesawyd Mr Dafydd Wigley i'r cyfarfod am y tro olaf fel Aelod Cynulliad.

Cyfeiriodd Mr Wigley at y cydweithio a fu rhyngddo â'r 28 Cyngor yn ei etholaeth a'i fod wedi ceisio cadw doler gyswllt trwy ymweld â phob un o'r Cyngorau bob rhyw dair blynedd. Aeth ymlaen i sôn am y gwahaniaeth rhwng bod yn aelod o'r cynulliad a bod yn aelod o'r senedd yn Llundain. Cyfeiriodd hefyd at ei fwriad o sicrhau llinell gyswllt *Fibre Optic* i ardaloedd pellach na Bangor a Chaernarfon fel y gall busnesau bychain, ysgolion a cholegau fanteisio ar y gwasanaeth maes o law. Hefyd scilio gweithlu fel bod y sgiliau presennol yn parhau.

Crynodeb yn unig yw'r uchod. Buasai'n rhaid cael rhywyn llawer cyflymach na Chlerc Llanddeiniolen i gadw i fyny â chyflymder a bwrlwm Dafydd Wigley!

Manteisiwyd ar y cyfle i gael trafodaeth agored gyda Mr Wigley. Amlygwyd y canlynol gan aelodau'r Cyngor:

(1) *Swyddfa'r Pôst, Penisa'rwaun*. Mae'r adeilad ar werth fel annedd cyffredin ac mae'r pentrefwyr ofn colli'r gwasanaeth pôst o'r pentref. Prosiectau Cymunedol. Angen ysgafnhau'r broses a gwneud i ffwrdd a'r biwrocratiaeth. Mae'n debyg bod cyfieithu'n cymryd amser hir.

(2) *Cynllun Cymunedol Cyntaf*. Brwydrodd Cyngor Gwynedd i gael *statws peilot* i'r cynllun ond bellach, a llawer o brosiectau ar y gweill, mae Peter Hain wedi cyhoeddi nad oes arian ar gael. Mae hyn yn groes i'r bwriad o gynlluniau cynladwy.

(3) *Llwybrau cyhoeddus*. Dim digon o gyllid i'w cynnal a'u gwella. Mae un ffordd ym Mhenisa'rwaun angen £11,000 i'w gwynebu. Mae ffyrdd eraill tebyg nad ydynt wedi eu mabwysiadu yn Rhiwlas.

(4) *Dôm arfaethedig Llanberis*. Dywedwyd bod diweithdra'r ardal llawn cymaint ag a oedd chyn agor Ewro DPC.

Atebodd Mr Wigley bod y cwmni yn cyflogi o ardal llawer changach na'r pentrefi cyfagos. Dywedodd hefyd y bu anhawster cael gweithwyr fel sciri, trydanwyr, bricwyr a gyrrwyr cerbydau trymion amser datblygu Ewro DPC. Os daw'r Dôm i fodolaeth bydd angen paratoi gweithlu dros gyfnod ymlaen llaw.

(5) Gwnaed sylw bod disgwyl i'r ieuencid i gyd fynd i goleg, neb i brentisiaeth crefft. Amlygwyd hefyd y byddai datblygiad o'r fath yn fygythiad amgylcheddol.

(6) Datganwyd pryder am nad yw'r gyfundrefn addysg yn rhan o Ddatblygu Economaidd.

Cyfeiriwyd at y posibilrwydd o goleg, yn lle'r chweched dosbarth i saith ysgol y dalgylch; defnyddio Coleg Menai ac efallai rhannu cyrsiau. (7) *Chwarel Dinorwig*. Mae ail gylchu'r gwastraff chwarel yn digwydd eisioes yn Nantlle. Oes bwriad gwneud yr un peth yn Ninorwig? Addawodd Mr Wigley wneud ymholiadau.

(8) *Datgan buddiant*. Gwnaed sylw bod y rheolau presennol dros ben llestri. Ni chaniateir i Aelodau'r Cyngor Sir drafod materion eu hetholaethau. Cafwyd engraifft yng nghyfarfod y cyngor yma ym mis Hydref wrth drafod ceisiadau am gymorth ariannol. Roedd bron pob aelod presennol hefyd ar pwyllgor y gwahanol fudiadau, pe bai'r rheol wedi ei gweithredu, fuasai neb ar ôl i drafod!

(9) *Heddlu*. Dywedodd Mr Wigley bod rheolaeth yr Heddlu yn dal i fod yn San Steffan a bod y Cynulliad yn ceisio cael y rheolaeth, dros Gymru, i Gaerdydd.

Bu'n anodd iawn dod â'r drafodaeth i ben ond, gan ei bod yn 8.20, roedd rhaid troi at weddill rhaglen y cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Dafydd Wigley am ei bresenoldeb a'r drafodaeth ac am ei gymorth dros y blynyddoedd.

Dymunwyd yn dda i Dafydd ar ei ymddeoliad.

Cofnodion Rhagfyr

Cywiriad - gadawyd allan enw'r Cyngorydd Dafydd Morris. Derbyniwyd gweddill y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion


Gwiriad llwybr ger Castell, Rhiwlas. Dywedodd y Cyngorydd Elwyn Jones ei fod wedi trafod gyda'r perchennog tir a chadarnhaodd mai camfa sydd ei angen ac nid giât, deallir mai dyna yw bwriad y cyngor Sir.

Atgoffa ysgrifennydd y Grŵp Cymunedol, bod angen galw cyfarfod o'r Grŵp yn fuan.

Gohebiaethau eraill

Cylchredwyd llythyr Atkins, ynglŷn ag adeiladau gwag i bob aelod cyn y Nadolig. Pythefnos o amser (dros y Nadolig) a gafwyd i ymateb i'w cais. Penderfynwyd gofyn am fwy o amser ac am ohebaith Gymraeg y tro nesaf.

(Parhad ar dudalen 21)



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensws ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Mae criw Sgriptio Rygarug yn cyfarfod bob nos Iau rhwng 6 a 7pm yn y Neuadd Goffa yn Llanrug a chan eu bod yn gwneud dipyn o waith sgwennu yn ystod y sesiynau, dyma benderfynu anfon peth ohono at yr Eco. Fel a welir yn y llun, y criw ydi Heledd, Elain, Gwenno, Llio, Jessica, Rhian, Ian, Chris a Sophie (ac Aled a Math o dro i dro!) a'r wythnos hon cewch ddod i adnabod Heledd, Gwenno, Llio, Ian, Sophie ac Aled yn well. Cewch hanes Elain, Jessica, Chris, Rhian a Math y mis nesa.

★ ★ ★

Fy enw i yw Gwenno. Rydw i yn 8 oed. Rydw i yn seis 3 yn sgidiau. Fy ffrind gorau i yw Tania. Hoff sbort fi yw pêl droed. Mae gen i lygaid glas. Rydw i yn hoffi rhedeg. Rydw i yn cefnogi Lerpwl. Mae Tania yn chwarae gyda fi bob nos jyst iawn. Mae gan Tania a fi wallt melyn a llygaid glas. Fy hoff fwyd yw chichen nuggets a beans a chips. Dydw i ddim yn hoffi wy na pysgodyn. Enw fy chwaer yw Mari ac enw fy mrawd yw Owain. Rydw i ym Mlwyddyn 4. Rydw i yn byw yn 2 Pen y Coed, Ffordd Cwawia, Llanrug. Rydw i yn hoffi mynd am dro i Ysgol Brynrefail a Cefn Elan. Mae Mari yn 5 ac mae Owain yn 3. Mae gen i fam o'r enw Awen ac mae gen i dad o'r enw Aled. Mae'r ddau ohonyn nhw yn glên. Bob nos Iau rydw i yn mynd i practis pêl droed. Bob nos Fawrth, Mercher a Iau rydw i yn mynd i Rygarug. Mr Griffith yw fy athro. Rydw i yn actio yn Porc Peis Bach. Rydw i yn actio chwaer Kenneth. Arabella yw fy enw i a rydw i wedi bod yn actio am 2 flynedd. Enw fy ffrind gorau yn Porc Peis Bach yw Anwen. Mae hi yn actio Helen. Mae gen i ddau fochdew o'r enw Taffi a Porc Peis. Fy hoff raglen yw Porc Peis Bach. Rydw i wedi bod yn cysgu yn Rhyd-ddu. Yn Rhyd-ddu wnaethon ni sylweddoli nad oedd stori bedd Gelert yn wir. Aeth y genod i guddio ar fryn oddi wrth yr hogia.

★ ★ ★

Aled ydi fy enw i. Fy ffrind ydi Ian. Rydw i yn hoffi pêl droed. Rydw i yn cefnogi Lerpwl. Mae gen i gi o'r enw Sami. Mae Sami yn ddu. Rydw i yn byw yn 25 Glanffynnon. Rydw i yn cael fy mhen blwydd ar Dachwedd 17. Rydw i yn dosbarth blwyddyn 2. Fy hoff fwyd i yw pei. Rydw i yn hoffi Tasmeinia. Rydw i yn hoffi mynd am dro ar fy meic hefo dad. Rydw i yn hoffi mynd am dro cfo mam. Rydw i yn hoffi rhoi y teledu ymlaen cyn mynd i gysgu'n sownd. Rydw i yn cysgu efo ci. Rydw i yn cysgu yn tŷ Nain bob 2 wythnos. Rydw i yn hoffi Rygarug. Rydw i yn hoffi symiau. Bob dydd Llun rydym ni yn chwarae pêl droed.

Rygarug



Rhes Gefn: Gwenno, Chris, Elain, Heledd a Sophie. Rhes Flaen: Aled, Jessica, Ian, Rhian, Llio a Math.

Rydw i wedi bod i fyny'r Wyddfa efo dad. Yr Wyddfa ydi mynydd mwyaf Cymru.

★ ★ ★

Fy enw i ydi Llio Emyr. Rydw i yn byw yn Llanrug. Enw fy ddau frawd yw Siôn a Math. Rydw i yn 7 oed. Mae gennyf wallt melyn llachar. Rydw i yn cefnogi Lerpwl. Rydw i yn byw yn Stryd Nant y Glyn. Enw fy nhŷ i ydi Garn Brys. Lliw fy llygaid i ydi glas golau. Rydw i yn mynd i Ysgol Llanrug. Rydw i yn cael fy mhen blwydd ar Ebrill 11. Rydw i ym mlwyddyn 3. Mae gennyf i gi o'r enw Cymro. Mae gennyf i bysgodyn o'r enw Pysci. Fy athrawes i ydi Miss Jones.

★ ★ ★

Rydw i yn byw yn 29 Bro Rhythallt, Llanrug. Fy ffrind gorau i ydi Llio. Rydw i yn cefnogi Everton. Mae fy sbectol yn frown. Rydw i yn saith oed. Fy enw i ydi Sophie. Rydw i yn hoffi mynd i'r Rhyl. Mae gen i frawd o'r enw Liam a chwaer o'r enw Lyndsey. Fy athrawes i ydi Miss Jones. Mae fy llygaid yn frown. Mae yna 30 o blant yn y dosbarth. Rydw i'n hoffi bwyta cinio dydd Sul. Mae gen i gi o'r enw Simba - mae o'n lliw melyn. Fy hoff raglen teledu ydi Sabrina. Mae gen i wallt brown.

★ ★ ★

Fy enw i yw Ian. Rydw i yn byw yn 7 Cefn Elan, Llanrug. Rydw i yn 7 oed. Rhagfyr y 4 ydw i'n cael fy mhen blwydd. Rydw i yn byw efo mam, dad a Rhian. Rydw i yn hoffi pêl droed. Rydw i yn cefnogi Lerpwl. Weithiau rydw i yn ffræo efo Rhian. Rydw i yn syrthio lot o weithiau. Mae gen i lygaid glas. Mae gen i wallt brown. Fy hoff

gartwn yw Tom and Jerry. Fy hoff fwyd i yw sglodion a sosej. Mae gen i bysgodyn o'r enw Goldi. Rydw i yn hoffi nofio. Mae Rhian yn 9 oed. Rydw i yn hoffi mynd ar y bws. Rydw i yn seis 12, rai bach, mewn sgidie. Enw fy athrawes i ydi Miss Lynch a Miss Tomos. Rydw i yn hoffi'r ysgol. Rydw i yn blwyddyn 2 ysgol gynradd Llanrug. Mae gen i 16 o gefndryd a 6 cnither. Mae gen i 2 Nain a 2 Daid. Dydw i ddim yn hoffi sefyll. Rydw i yn hoffi eistedd. Rydw i yn hoffi mynd i gysgu. Mae gen i Nintendo. Rydw i yn hoffi Rygarug. Bob dydd Llun rydw i yn chwarae pêl droed. Dydw i ddim yn licio cael torri fy ngwallt. Enw fy mam i ydi Susan. Enw fy nhad i ydi Maicyl.

★ ★ ★

Fy enw i yw Heledd Roberts. Rydw i yn 9 oed. Rydw i yn byw ym Mwlchgrwnog rhwng Llanrug a Chwm y glo. Mae gennyf i un chwaer ac un brawd a dau hanner brawd. Enw fy chwaer yw Elain ac enw fy mrawd yw Math. Enw fy hanner brodyr yw Elis a Mei. Lliw fy llygaid yw glas. Fy hoff fwyd yw selsig a sglodion. Fy ffrindiau gorau yw Lyndsey, Rosie a Chris. Enw fy mam yw Sian ac enw dad yw Dafydd. Rydw i yn Blwyddyn 4 a Mr Griffith yw fy athro i. Rydw i wedi cael rhan yn Rownd a Rownd. Rydw i yn hoffi mynd i Rygarug, rydw i yn gwneud pedwar o weithgareddau - Cerdd, Sgriptio, Cloccio ac Aml-Gyfrwng. Fy hoff raglenni teledu yw USA High a Sabrina the Teenage Witch.

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

(01286) 870484

➤ Bysiau o 12 i 53 sedd

➤ Teithiau Lleol a Thramor

➤ Gwaith Contract

➤ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



CASTELL BOWNSIO

AR GYFER

POB ACHLYSUR

Down â fo atoch

a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Pensarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol

Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

CHWILOTA



Ffilyd o Ymatebion

Yn y rhifyn diwethaf ymddiheuraism am mai braidd yn bytiog oedd cyfraniadau'r golofn, gan ddefnyddio fel esgus mai ychydig o gig sydd ar yr asgwrn yn union wedi'r 'Dolig. Wel, y mis hwn, fe ddaeth y 'Dolig yn hwyr! Derbyniais nifer helaeth o gyfraniadau ysgrifenedig a galwadau ffôn ynglŷn â'r gwahanol bytiau a ymddangosodd y mis diwethaf. Yn wir, roedd rhai ohonynt yn erthyglau ynddynt eu hunain. Derbyniais hefyd geisiadau a gwybodaeth newydd am dai a phobl mewn gwahanol ardaloedd o'r fro.

Ymddiheuriadau ymlaen llaw i'r holl gyfrannwyr nad yw eu ymholiadau'n ymddangos y mis hwn, ond rwy'n siwr y byddai'r golygyddion yn pryderu pe bai'r golofn yn llenwi tair tudalen neu fwy o'r papur!

Colli Enwau Llafar

Galwad ffôn gan deulu Hafod Lydan, Llanberis yn cadarnhau fod Pwll Batus ar eu tir hwy ger, y llwybr cyhocddus sy'n croesi o Fron Eryri i Lwyn Celyn. Ond yn llawer mwy diddorol na hynny oedd y ffaith eu bod yn medru lleoli Clogwyn Eiddew. O'r diwedd, a minnau'n chwilio amdano ers blyneddau! Ond, nid hwn oedd y Clogwyn Eiddew roeddwn i'n chwilio amdano. Felly, mae dau Clogwyn Eiddew yn y fro - un ar lannau Llyn Padarn, yn rhywle, a'i leoliad yn parhau'n ddirgelwch, a'r Clogwyn Eiddew a leolwyd gan Mr Davies y tu cefn i fferm Cae Gwyn, Nantperis. Dyna ddechrau felly, ar leoli gwahanol enwau llafar am greigiau a chlogwyni.

Ddaeth neb i gysylltiad i leoli Pont y Felin a Phont y Terrace yn Llanddeiniolen. Oes rhywun yn gwybod ble mae rhain?

Ywen Llanddeiniolen

O fewn ychydig ddyddiau i gyhoeddi'r rhifyn diwethaf o'r 'Eco' roedd nodiadau wedi cyrraedd acw yn ychwanegu at y wybodaeth am oedran y coed yw. Gyda diolch i John E. Williams, Allt Riwth, Pontrhythallt a Griff Roberts, Tŷ Gwyn, Llanrug.

Mae Cymdeithas Hanes Teuluocdd Gwynedd wedi cyhoeddi llyfr o arysgrifau cerrig beddau mynwent Llanddeiniolen, ac ar wyneb ddalen y llyfr y ceir y dyfyniad canlynol: 'In Llanddeiniolen churchyard there are eight yew trees. The

Conservation Foundation, Country Living, Yew Tree Campaign has issued certificates for two of these trees. The certificates were signed by Sir George Trevelyan, Alan Meredith, Robert Hardy and David Bellamy, and are now inside the church on the north wall of the nave.'

Gellir dadlau mai'r ywen yw'r planhigyn byw hynaf yng ngwledydd Prydain. Ond planhigyn sy'n gynhenid i briddoedd sialc a chalch ydyw, sy'n awgrymu fod y mwyafrif o'r coed yw sy'n gysylltiedig â mynwentydd a safleoedd cysegredig wedi eu plannu'n fwriadol. Maent i'w canfod amlaf yng ngorllewin Prydain a hefyd yn Llydaw, sy'n awgrymu cysylltiadau Celtaidd. Er nad yw'n hawdd eu dyddio, mae o leiaf chwe deg o goed yw ym Mhrydain sydd dros ddwy fil o flynyddoedd oed! Ac y mae dwy ohonynt yn Llanddeiniolen.

Mae'n goeden amddiffynol, yn gwarchod yr eglwys (a oedd yn adeilad pren yn wreiddiol) rhag y tywydd, ond hefyd yn gwarchod rhag drwg, yn ôl coel gwerin. Mae'n symbol hefyd o anfarwoldeb ac atgyfodiad. Mae amryw o goed yw hefyd yn 'gwaedu', fel yr enghraifft enwog honno yn Nanhyfer, Penfro. Dyna mae'n debyg a roes fodolaeth i'r hen gysylltiad â gwaed Crist. Gwyddom bellach mai heintiad gan fungus o fath arbennig sy'n achosi'r lliw coch.

Safleoedd addoli paganaidd oedd wddi cu hamgylchynu a choed yw yn wreiddiol, ond pan fabwysiadwyd Cristnogaeth, sefydlwyd yr eglwysi newydd ar yr hen safleoedd paganaidd hyn. Yn wir, mae nifer o hen fynwentydd yng Nghymru yn dyddio o amser cyn-Gristnogol. Enghraifft arbennig o hynny yw eglwys a mynwent Gwytherin yn sir Ddinbych, lleoliad nofel Ellis Peters, *A Morbid Taste of Bones*.

I'r rhai ohonoch sydd â diddordeb mewn traddodiadau yn ymwneud â mynwentydd, ac â'r mathau o fywyd gwyllt sy'n cael noddfa o'u mewn, darllenwch 'God's Acre' gan Francesca Greenoak.

Does ryfedd i W. J. Gruffydd alw Ywen Llanddeiniolen yn 'Benadur yw-wydd llannau Cymru oll', oherwydd os nad yma mae'r ywen hynaf yng Nghymru, mae dwy o'r coed ymhlith yr hynaf ym Mhrydain, gyda chofnodion manwl amdanynt bellach yn cael eu cadw yng Ngerddi Kew yn Llundain.



Ffatri a Melin Bedwargoed.

Yn unol â'r addewid y mis diwethaf, daeth gwybodaeth i law gan Mrs Enid Jones, Talysarn. Roedd y lle, meddai, yn bwysig ac yn brysur tua chan mlynedd yn ôl oherwydd y felin lechi a leolid yno. Deuai'r llechi mewn tryciau o'r Gilfach Ddu 'ar hyd yr hen reilffordd, rhyw led cae oddi wrth y llyn na'r rheilffordd bresennol.' Byddai rhai o'r gweithwyr yn dod drosodd o Lanberis mewn cwch.

Roedd clwstwr o dai wedi eu hadeiladu o amgylch y felin, 'roedd tua saith yno yn 1946 a'r gweddill yn adfeilion'.

Wedi i'r felin lechi gau, daeth y Ffatri Wlan yn boblogaidd iawn, a gelwid y tai oedd yno ar y pryd yn 'dai'r ffatri'. Yr oedd tair ystafell yn y ffatri. Mewn dwy ohonynt roedd peiriannau mawr yn trin gwlân, a'r wennol yn brysur yn gwau'r edafedd. Yn y llofft uwchben byddid yn sgwrio'r edafedd a'i liwio; yna ei roi i sychu ar lan y llyn am ddyddiau.

Mae llwybr troed yn arwain o'r Fachwen heibio i Fedwargoed a thros yr Alltwen i Lanberis. Mae Mrs Jones yn 'cofio postyn mawr yng nghwr y coed ger Felin Bedwargoed a rhybudd arno nad oedd neb i gerdded y llwybr ond "pobl Caeau Cochion", sef yr hen enw ar Fachwen.' Gerllaw Melin Bedwargoed roedd adfeilion dau neu dri o dai, 'yn sefyll fel sgerbydau, a minnau'r plant yn ofni mynd yn agos at y lle.'


Diddorol yw'r cyfeiriad mai llwybr caniatad oedd hwn yn wreiddiol felly: caniatad i bobl y Fachwen dramwyo ar ei hyd i'r

Gilfach Ddu ac ymlaen i Lanberis. Bellach, wrth gwrs, mae'n llwybr hynod boblogaidd gan drigolion lleol ac ymwelwyr fel rhan o gylchdaith Llyn Padarn, ond ychydig iawn o'r rhai sy'n croesi'r bont lechen dros afon Fachwen ger y Bedwargoed sy'n ymwybodol o'r holl ddiwydiant fu'n gysylltiedig â'r ardal flynyddoedd yn ôl. Gyda diolch i Mrs Jones am rannu ei gwybodaeth â ni, ac edrychwn ymlaen am fwy o hanes Caeau Cochion yn y dyfodol.

Teulu Hume a Califfornia

Fel y crybwyllais y tro diwethaf, roedd gan deulu'r Hume, Llanberis gysylltiad â Califfornia. Anfonodd Mrs Rhian Williams, Rhiwbina, Caerdydd lun-gopi o gerdyn post i mi. Mae wedi ei gyfeirio i Miss Helena Hume, Glasgow House, Llanberis, ac o graffu ar y marc post gwelir mai ym 1907 yr anfonwyd y cerdyn, a hynny o CAL, sef Califfornia. Does dim cyfarchion o gwbl ar y cerdyn, na llofnod pwy bynnag a'i hanfonodd. Mae'r llun ar flaen y cerdyn yn dangos nifer o fabanod yn crio, gyda'r geiriau 'Good Night'. Efallai fod arwyddocad i'r llun ar y pryd, pwy a wyr?

Yr hyn sy'n creu penbleth i Mrs Williams yw'r ffaith iddi ddod ar draws y cerdyn ymhlith hen gardiau post o eiddo ei mam, Mrs Mair Owen, Bod Awen, Llanberis. Nid yw'n ymwybodol fod unrhyw gysylltiad teuluol rhyngddi â theulu'r Hume.



Hel Achau

Addewais y tro diwethaf roi mwy o fanylion am ddosbarth i'w gynnal yn Llanrug i'r rhai ohonoch sy'n awyddus i wybod sut i fynd ati i ddechrau chwilio hanes eich teulu. Cynhelir y dosbarthiadau yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug ar nosweithiau Llun, gan gychwyn ar 24ain o fis Mawrth, ac yn gorffen ar 14eg o fis Ebrill. Bydd y pedwar cyfarfod o tua dwyawr yr un yn costio £20, gyda'r holl elw yn mynd tuag at Gymdeithas Myasthenia Gravis (mwy am hynny mewn erthygl arall yn y rhifyn hwn).

Hoffwn bwysleisio mai dosbarthiadau i ddechreuwyd fydd y rhain, nid i rai sydd eisoes â digon o wybodaeth i chwilo yn y manau cywir am hanes eu teulu. Rhoddir arweiniad sylfaenol ar sut i osod allan y goeden deulu neu'r cart achau; beth yw'r gwaith cychwynnol; sut i ddiolli'r wybodaeth swyddogol, (gan gynnwys defnyddio cofnodion megis tystysgrifau, cyfrifiadau, cofrestrau plwyf a chapel, arysgrifau cerrig beddau, trwyddedau ac ewyllysiau, cofrestrau etholiadol a threth tir); ble mae darganfod y cofnodion; a rhai problemau megis sillafu a llawysgrif, enwau

Lladin a dyddiadau. Mae unigolion eisoes wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r dosbarthiadau, ac mae croeso i eraill roi galwad ar y ffôn.

Canrif o Luniau

Eisoes cefais addewid am fenthyg lluniau ar gyfer yr arddangosfa o hanes Llanrug mewn lluniau dros y can mlynedd diwethaf. Y gobaith yw gwneud copi o'r rhan helaethaf o'r lluniau er mwyn eu dychwelyd i'w perchnogion gynted â phosibl. Felly, os oes gennych unrhyw lun yn dangos unrhyw agwedd ar fywyd yn Llanrug yn ystod y 1900'au, cysylltwch â mi.

Y rhifyn nesaf...

Hoffwn ddiolch ymlaen llaw i Mr Owen Jones, Llangefni; Mrs Helen Francis, Caer a Mr Iwan Hughes, Rhuthun am gyfraniadau a dderbyniwyd ddiwedd Chwefror. Mawr obeithiaf y gallaf gynnwys eu sylwadau yn rhifyn nesaf yr 'Eco'. Yn y cyfamser, os oes gan unrhyw un ohonoch sylw neu ymholiad ar unrhyw agwedd o hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

Sgerbwd yn eich cwpwrdd?



HEL ACHAU / HANES TEULUOL

Cyfras o ddosbarthiadau i ddechreuwyd yn y maes.

Y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG.

Nos Lun, 24ain Mawrth hyd nos Lun, 14eg Ebrill.

7.00 tan 9.00.

Yng ngofal Dafydd Whiteside Thomas.

£20.

Elw tuag at Gronfa Cymdeithas Myasthenia Gravis

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

Rygarugasorws

Efallai nad ydych chi ddarllenwyr yr Eco yn gyfarwydd â'r bwystfil llwglyd sy'n llechu yn y llyn tua Chastell Bryn Bras. Ond fe allwn ni griw Sgriptio Rygarug ddateglu i chi bod anifail tra anghyffredin o'r enw Rygarugasorws, Rygaruga i'w ffrindiau, yn byw yn nyfnderoedd y llyn. Mae Gwenno wedi gwneud llun ohono, fel y gwelwch, fel eich bod yn gwybod pwy ydi o pe baech yn dod ar ei draws! O fis i

ffis yn yr Eco, cewch hanes Rygarugasorws gennym ni, sut mae'n llenwi ei fol llwglyd a phwy o bentrefwyr Llanrug sy'n cael ymweliad ganddo. Cofiwch fod y straeon hyn yn egsgliwsif i'r Eco – chewch chi mo hanes Rygarugasorws yn yr un papur arall! Ac wrth gwrs, mae'r straeon wedi cael eu hysgrifennu gan lenorion ifanc hynod ddawnus – sy'n ddigon i wneud i rai o awduron mwyaf disglair Cymru grynu yn eu hesgidiau!!



Rygarugasorws

Pennod 1

Bobol bach, wnewch chi byth goelio beth ddigwyddodd yn Llanrug heddiw. Gwelwyd Rygarugasorws yn cerdded allan o'r llyn wrth ymyl castell Bryn Bras. O! na. Ymlwybrodd i lawr tuag at y pentref a gwnaeth ei ffordd i'r neuadd goffa. Yn ôl pob sôn roedd yn anferthol. Roedd ganddo dair llygaid a cheg enfawr yn llawn dannedd miniog. Roedd golwg andros o flin arno a thybiwn ei fod ar lwgu! O! diar, aeth i chwilio am fwyd yng ngwersi Sgriptio Anti Haf. Gwasgodd i mewn drwy'r drws. Agorodd ceg Anti Haf led

y pen a gwaeddodd 'Nefi blw... bwystfil byw... Allan!' Roedd llygaid Heledd fel dwy soser anferth. Neidiodd Elain i guddio yn y bin sbwriel. Sleifiodd Chris o dan y bwrdd. Sgathrodd Llio a Sophie i'r gegin. Chwilota am blant drwg i dc oedd Rygarugasorws. 'Esgusodwch fi, Rygaruga,' meddai Anti Haf, 'does dim plant drwg yn cin gwersi Sgriptio ni, felly heglwch hi o'ma!' I ffwrdd a'r deinosor druan yn ôl am y Castell. Suddodd i mewn i'r llyn a'i fol yn wag.

Gwenno Gibbard

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Cyngor Cymuned Llanberis

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanberis ar nos Iau yr 16eg o Ionawr 2003, yn 'Angorfa', Llanberis am 7 o'r gloch. Y Cyngorydd Ddi Tomos oedd yn y gadair. Derbyniwyd cofnodion Rhagfyr fel rhai cywir.

Materion yn codi o'r cofnodion

Beicio ar Lwybr Llanberis, Yr Wyddfa a materion cysylltiol: Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Ms Barbara Jones o'r Parc Cenedlaethol yn cytuno i ddod i gyfarfod mis Chwefror i drafod addasu'r gwaharddiad beicio ar y llwybr. Cafwyd gwybod hefyd fod cyfarfod o banel yn ymwneud â beicio ar Yr Wyddfa ym Mhenryn deudraeth ar y 17fed o Ionawr - cytunodd y Cadeirydd i fynd i'r cyfarfod. Derbyniwyd llythyr gan Adran Addysg, Diwylliant a Hamdden y Cyngor Sir yn nodi fod Ken Latham o Barc Padarn yn ymwybodol o'r gwyn fod blerwch yn y parc a bod ymchwiliad ar y gweill. Derbyniwyd llythyr gan gwmni Atkin ynglŷn â 'Redundant Rural Buildings Study'. Wedi trafod amcanion yr astudiaeth hon daethpwyd i'r casgliad nad oes adeiladau gwag sy'n addas ar gyfer datblygu diwydiannol yn yr ardal.

Adran Prifffyrdd: Wedi bwrw golwg dros y ddogfen Cynllun Drafft Cynnal a Chadw Prifffyrdd, ni dderbyniwyd unrhyw sylw arni gan aelodau'r Cyngor.

Llwybr Cyhoeddus Rhif 23. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Bencadlys yr Heddlu, Maesincla, yn nodi eu bod yn ymchwilio i'r gwyn ynglŷn â phresenoldeb cwn ffyrnig ar y llwybr.

Ceisiadau Cynllunio

Er gwybodaeth, cafodd y ceisiadau canlynol eu cymeradwyo:

- (i) Estyniad deulawr, Frongoch, Gwastadnant, Nant Peris
- (ii) Newidiadau ac estyniadau i 12/14 Stryd yr Wyddfa, Llanberis.

Ystyriwyd y cais canlynol:

- (i) Estyniadau a Newidiadau, Becws Eryri, Stryd Fawr, Llanberis. Doedd dim gwrthwynebiad i'r Cynlluniau. Er hynny, mynegwyd pryder a siom ynglŷn â'r diffyg arwyddion Cymraeg yn y becws yn ddiweddar. Penderfynwyd gyrru llythyr at y perchnogion i ofyn yn garedig iddynt ystyried gosod arwyddion dwyieithog ar eu siop

Y Fynwent

Derbyniwyd adroddiad gan Derek Jones ar gyflwr y cerrig beddau. Dywedodd fod tair carreg fedd yn sigledig iawn a

bod angen eu gosod i orwedd er mwyn arbed niwed i unrhyw un. Hysbyswyd y Cyngor fod y broblem gyda thyrchod daear yn y fynwent yn gwaethygu a bod nifer o gwynion wedi eu derbyn. Penderfynwyd gyrru llythyr at Adran Iechyd a'r Amgylchedd Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt gysylltu â phla laddwr er mwyn datrys y broblem. Trafodwyd yr angen amlwg i 'ail-darmacio' llwybr y Fynwent sydd bellach yn anwastad ac yn beryglus. Penderfynwyd holi am brisiau.

Llwybrau Cyhoeddus

Mynegwyd pryder gan y Cyngorydd Douglas Pritchard ynglŷn â chyflwr y llwybr o dan y gamfa ar gopa Moel Eilio. Dywedodd fod angen gosod cerrig o dan y gamfa gan fod pyllau mawr o ddŵr wedi ffurfio yno gan ei gwneud yn anodd i groesi. Yn ogystal a hyn trafodwyd yr angen i atgyweirio'r llwybr o Mur Mawr i Hafod Lydan. Penderfynwyd gofyn i'r Cwmni sy'n gyfrifol am wneud y gwaith ar y llwybr i Fwlch Maesgwm a fyddai ganddynt ddiddordeb yn y gwaith.

Y llwybr o'r Hostel Ieuenctid at Bron Eryri: Derbyniwyd cynwnglŷn â chyflwr y llwybr. O ganlyniad i faw gwartheg, gorfodir pobl i ddringo'n uwch na'r llwybr gwreiddiol er mwyn ei osgoi.

Llwybr Cyhoeddus 34 o Bont Meibion, Nant Peris at y briffordd. Penderfynwyd fod angen trin y llwybr gan fod yr afon yn bwyta'r tir ar raddfa gyflym a dileu'r llwybr.

Llwybr Cyhoeddus o Graig Yr Undeb at Ben-llyn: Dywedwyd fod pryder am gyflwr wyneb y llwybr a bod angen ei dwtio. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt atgyweirio y tri llwybr yma.

Meinciau Cyhoeddus

Trafodwyd addasrwydd lleoliad un fainc yn y pentref - ger y mynedfa cyntaf i'r pentref (lle roedd y Goeden Nadolig). Tybiwyd nad oedd yn lle addas, gan nad oedd golygfa i'w gwerthfawrogi. Llocliad newydd i'w drafod yng nghyfarfod mis Chwefror.

Gohcbiaeth

• IWA: Derbyniwyd holiadur ar Faterion Tai a Pholisiau Parc Cenedlaethol Eryri. Cytunodd y Cyngor John Pritchard i lenwi a gyrru'r holiadur ar ran Y Cyngor.

• Parc Cenedlaethol Eryri: derbyniwyd llythyr yn atgoffa'r Cyngor o Gyfarfod Blyneddol y Parc a'r Cyngorau Cymuned yn rhan ogleddol PCE y 21ain o Ionawr - Bydd y Cadeirydd a'r Cyng. Ken Jones yn mynd iddo. (ii) derbyniwyd copi o

gofnodion fforwm Mynediad Lleol y Gogledd a gynhaliwyd yn Swyddfeidd Cyngor Gwynedd ar y 15fed o Dachwedd.

• North Wales Rambler - gwybodaeth am gyfarfod ar y 18fed o Ionawr ym Metws y Coed. Cytunodd y Cyngor Douglas Pritchard gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

• Cymdeithas Eryri - manylion am y cyfarfod 'Pobl yn y Parc' yng Ngwesty'r Fictoria. Llanberis ar yr 8fed o Fawrth. Cynigiodd y Cyngor Olwen Gwilym gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod.

Cofrestr Eiddo

Cytunodd Y Cyngorwyr Ken Jones a Derek Jones ymchwilio i eiddo'r Cyngor. Mae angen cyfiri'r meinciau ac ystyried holl eiddo'r cyngor.

Materion Ariannol:

1. Priseb 2003-2004. penderfynwyd ar briseb o £10, 890 ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

2. Derbyniwyd sawl cynwnglŷn â'r ffaith i'r cyngor gynnig grant o £2,000 i Gonsortium Busnes Llanberis. Dymuna'r Cyngor bwysleisio mai ar gyfer ariannu goleuadau ac addurniadau Nadolig y pentref y mae'r arian yma.

Unrhyw Fater Arall gyda chaniatad y Cadeirydd:

• Gweithgareddau'r Cyngor Sir:

Awgrymodd y Cyngor Carys Morris mai da o beth fyddai cael adroddiad ysgrifenedig misol o weithgareddau yn ymwneud â Chyngor Gwynedd mewn perthynas ag ardal Llanberis gan ein cyngorydd lleol - Y Cyng. Trefor Edwards. Cytunwyd i ysgrifennu ato i ofyn iddo am adroddiad misol.

• Waliau Cerrig: Mynegwyd pryder ynglŷn â'r bylchau lu yn y waliau o Nant Peris i Ben y Pas. Nodwyd fod y bylchau yn y waliau o Ben-llyn i Lanberis wedi eu cau a penderfynwyd gyrru llythyr at y Cyngor Sir i fynegi hyn, ac i ofyn am dwtio a chau.

• Y ffordd ger Caffi Pete's Eats: Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag Adran Briffyrdd y Cyngor Sir i holi pryd maen nhw'n bwriadu gwneud y ffordd heibio talcen y bwyty yn ffordd unffordd, ac i ofyn iddynt glirio'r gwrych sydd wedi tyfu i'r ffordd yn Cambrian Lodge.

• Darllenodd y Cadeirydd neges ffacs gan Ken Jones, Blaen y Ddôl, yn gofyn am gynghorydd i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor newydd i drafod gefeillio Llanberis â thref Morbegno yn yr Eidal. Cytunodd Derek Jones i gynrychioli'r Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 9 o'r gloch. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau y 20fed o Chwefror am 7.00 o'r gloch.

CODI ARIAN AT ACHOS DA



Llongyfarchiadau mawr i Haf Thomas, Buarthau, Llanrug sydd wedi bod yn brysur unwaith eto yn casglu arian tuag at achos da. Dros y Nadolig, yn ôl ei harfer, trefnodd Haf gyngerdd Nadolig a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn Siambr Dafydd Orwig gan fod derbynfa'r Cyngor wedi mynd yn rhy fach. Bellach mae dros 20 o staff y Cyngor Sir yn aelodau o'r côr a gychwynwyd gan Haf saith mlynedd yn ôl.

Eleni roedd un aelod newydd go arbennig o fro'r Eco wedi cael ei ddenu gan Haf i ganu yn ei côr, neb llai na John Eifion, yr enillydd Rhuban Glas, a'r tenor swynol. Roedd ei berfformiad yn wefreiddiol.

Yr elusen a ddewiswyd eleni oedd Marchogaeth i'r Anabl, ac aeth Haf, ynghyd ag Eiriona Williams o'r Cyngor draw i

Dreborth i gyflwyno sicc o £800 yn ddiweddar i Mrs Mary Axton, ysgrifenyddes y Gangen. Bydd £600 o'r arian yn mynd tuag at gynnal a chadw Ifor - y ceffyl yn y llun - a'r gweddill tuag at gostau adeiladu ramp pwrpasol ar gyfer marchogaeth. Dymuna Haf ddolch o galon i bawb o Fro'r Eco a gyfrannodd tuag at y gronfa eto eleni, yn unigolion, cynghorwyr a côr Clychau'r Grug.



Haf a John Eifion

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

BABI NEWYDD. Anfonwn ein llongyfarchiadau i Keith a Danielle, Elfryn, Ffordd yr Orsaf ar enedigaeth eu merch fach.

DIOLCHIADAU. Dymuna Mrs L. O. Owen, Llys Myfyr gynt, sydd yn awr yng Nghartref Plas Pengwaith ddiolch yn fawr i'w theulu a'i ffrindiau oll am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod y Nadolig.

DYMUNA Robert Williams, Llain Gwta, Gwelfynydd fynegi diolchgarwch y teulu am bob arwydd o gydymdeimlad, trwy air, cerdyn a ffôn, wrth ffarwelio â'u hannwyl chwaer, Miss Mary Williams yn ddiweddar o Blas Bengwaith, Llanberis ond gynt o Danycoed, Bethesda a Thregharth. Diolch am bob gofal a gafodd yn y Cartref ac i bawb a fu'n gweini cysur iddi dros ei arhosiad yno. Diolch hefyd i'w nithoedd, Rowena Rees ac Albert, Olive Owen a Dai, Ceulan, Llanrug am eu ffyddlondeb iddi yn ei gwaeledd.

Gwerthfawrogi y rhoddion, gan y teulu a chyfeillion, er cof amdani a gyflwynwyd i Antur Waunfawr. Diolch i Mr Merfyn Jones a Mr Cyril Williams am eu gwasanaeth gwiw yng Nghapel Hermon Llanrug ac yn yr Amlwgfa ym Mangor.

Hwyluswyd y trefniadau gan wasanaeth trylwyr E.W. Pritchard, Llanberis.

CYDYMDEIMLWN â'r canlynol:

Mrs Mona Griffiths, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd a oedd yn byw yn y Felinheli;

I deulu Mr John Elwyn Jones, 11 Glanmoelyn a fu farw yn sydyn iawn ar 15 Chwefror. Gŵr tawel gyda llawer o ffrindiau, bydd colled fawr ar ei ôl.

APÊL BANGLADESH.

Cynhaliwyd pwyllgor olaf Capel y Rhos, Apêl Bangladesh, nos lau, 23 Ionawr 2003.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb, aelodau Capel y Rhos, Staff yr Ysgol Gynradd ac i ardal Llanrug am fod mor frwdfrydig yn cefnogi yr Apêl. Fe gasglwyd swm o £1771.70.

Bydd eich cyfraniad chi yn helpu rhai o bobl dlotaf Bangladesh i adeiladu gwell dyfodol i'w teuluoedd a'u cymunedau.

Mae £10 yn talu am hyfforddiant un-dydd i 10 fydwaig draddodiadol. Mae £300 yn talu am gloddio 6 ffynnon ddi-arsenig.

Drwy weithredu a rhoi fe allwn ni wireddu.

Vr aiddoch yn gywir
Gwen Jones (Ysg)

DYMUNA Mrs Jennie Williams. Bod Fair, ddatgan ei gwerthfawrogiad trylwyr o'r cardiau, llythyrau a galwadau ffôn a dderbyniodd o gydymdeimlad yn y brofedigaeth o golli ei brawd annwyl, John Watkin Jones o'r Wyddgrug, gynt o Borthmadog.

Er ei oedran teg, colled fawr i ni fel teulu.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug o Ferched y Wawr yn y Ganolfan Gymunedol ar nos Fawrth, 11

Chwefror. Croesawodd Menna, y Llywydd, bawb i'r cyfarfod ac anfonodd ei chofion at Nan sydd heb fod yn dda. Cyhoeddodd nifer o ddigwyddiadau: Cinio'r Llywydd ar 16 Ebrill yng Ngwesty Bryn Havel, Llangollen; Cwis Hwyl Cenedlaethol ar 4 Ebrill; Gŵyl Pum Rhanbarth ar 10 Mai; y Cyfarfod Blynyddol a'r Wyl Haf ar 17 Mai. Eto eleni bydd aelodau'r gangen yn gweini yn y caffi yn Eisteddfod yr Urdd, a gynhelir yn Ysgol Brynrefail ar 1 Mawrth.

Y wraig wâdd oedd Ella Jones, Ysbyty Ifan sydd wedi datblygu busnes gwneud dillad priodas a llogi hetiau ar gyfer achlysuron arbennig. Daeth â thoreth o luniau dillad priodas i'w dangos ac eglurodd fel yr oedd yn rhaid addasu ar gyfer gwahanol ofynion, megis tymor y flwyddyn a lleoliad, gan gofio fod rhai yn dewis priodi dramor y dyddiau hyn.

Roedd ganddi ddiddordeb arbennig mewn hetiau ac yn gwneud busnes llewyrchus o'u llogi neu eu gwerthu. Daeth a nifer iawn o hetiau i'w harddangos a dangosodd y gwahanol ddefnyddiau ar eu cyfer megis siname, ffelt, gwellt, polyester, sidan dupion, i gyd mewn lliwiau godidog ynghyd ag addurniadau fel plu a blodau. Dangosodd fel y gellir cymysgu gwahanol ddefnyddiau i wneud creadigaeth effeithiol. Erbyn hyn mae Ella yn rhan o fusnes Gwlwm sy'n paratoi'r cyfan ar gyfer priodas, o bapur a blodau i gacennau a cherddoriaeth ar y delyn. Bu'n noson ddiffr iawn gyda phawb ar y diwedd yn cael y cyfle i droi'r hetiau.

Diolchwyd i Ella gan Ann Ifans. Diolchodd Bethanne i Meryl a Pat am wneud y te ac enillwyd y raffl gan Phyllis. Diolchodd Beryl am y cyfraniadau hael a dderbyniodd ar ôl iddi gymryd rhan yn y tawelwch noddedig.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth a byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda noson caws a gwin a disgwylir i'r aelodau roi sgysiau byrion ar unrhyw beth diddorol sydd ganddynt yn y tŷ.

YSGOL GYNRADD

Genedigaeth. Llongyfarchiadau i Elena Williams a Darren ar enedigaeth eu mab bychan, Deian Gruffydd.

Croeso i Miss Donna Jones yma yn weinyddas yn ystod cyfnod mamolaeth Miss Williams.

Croeso hefyd i Miss Jacqueline Pugh fel gofaiwraig yr ysgol. Gobeithio y bydd yn hapus yn ein mysg. Diolch i Mrs Hilda o Fethel a fu yma yn gweithio.

Gwaith Thema. Fel rhan o'u gwaith thema 'cartrefi' bu disgyblion y Dosbarth Derbyn ar ymweliad â thai Fron Haul yn Amgueddfa Lechi Llanberis. Diolch i staff yr Amgueddfa am eu cymorth a'u croeso.

Ribi Di Res. Cafodd hanner dwsin o disgyblion B1.1 gyfle i fynd i recordio rhaglen gelf newydd i blant 'Ribi Di Res' yn stiwdio Barcud. Gwyliwch



Mr Ieuan Wyn a Mrs Howells a rhai o blant y dosbarthiadau.

LLAIS A LLUN. Pecyn wedi ei gyhoeddi gan Fudiad Merched y Wawr yw hwn a bydd pob cangen yn cael pecynnau i'w cyflwyno i'w hysgol leol.

Cyflwynodd Eryl Roberts, ar ran Cangen Llanrug o Ferched y

Wawr, becyn i Ysgol Gynradd Llanrug, ar gyfer dosbarthiadau 5 a 6. Mae'r pecyn yn cynnwys lluniau o ferched Cymru wrth eu gwaith, o odro hefo llaw i weithio mewn ffatri.

amdanynt ar y teledu o ddechrau mis Mawrth ymlaen.

Urdd. Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn brysur yn cystadlu yn y gwahanol dwrnamentau. Daethant yn agos iawn i'r brig yn nhwrnament Ysgolion Dalgylch Brynrefail ac yn nhwrnament yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Silyn, Penygroes.

Eisteddfod yr Urdd. Dymunwn yn dda i bob unigolyn a pharti fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd eleni.

Cynhelir yr Eisteddfod ganu a llefaru yn Ysgol Brynrefail - dydd Sadwrn, 1 Mawrth, a'r Eisteddfod Symudol yn Ysgol Syr Hugh Owen, Ffordd Bethel, nos lau, 6 Mawrth. Tâl mynediad i'r Eisteddfod yw £2.00.

Cyflwyniad. Brynhawn dydd Gwener, 14 Chwefror daeth Mrs Eryl Roberts o gangen Merched y Wawr, Llanrug i'r ysgol i gyflwyno pecyn addysg 'Hanes Merched yng Nghymru'.



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL

CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCHE UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

**Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris**

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED.

Cyflwynwyd rhodd o £100 i 'Tŷ Gobaith' yn dilyn y Panto llwyddiannus.

Fe gafodd Blwyddyn 5 a 6 gyfle i gymryd rhan mewn twrnament pêl-rwyd yn y dalgylch ac fe gawsant fwynhad mawr.

Croesewir Marsha Read o Goleg Prifysgol Bangor, sy'n dilyn Cwrs Gradd mewn Addysg. Pob dymuniad da iddi gyda blynyddoedd 3 a 4.

Mae prysurdeb mawr wrth i bawb ymroi i'r gwahanol themâu: Mannau Arbennig - Bl. 5 a 6; Hen a Newydd - Bl. 3 a 4; Dathliadau - Bl. 1 a 2; a Hip! Hip! Hwre! - Dosbarth Meithrin a Derbyn.

CYFEILLION YR YSGOL. Mae'r Cyfeillion yn casglu tocynnau o bob math i helpu'r ysgol. Os oes rhai ohonoch yn y pentref yn derbyn rhai, efallai y buasech garediged â'u cyfrannu i'r ysgol. Mae rhai i'w cael yn Tesco, Nestle Tops Education a Free Books For Schools. Diolchir i chwi am eich cydweithrediad.

POB LWC. Boed i untgryn y daffodiliau floeddio. Pob

hapusrwydd i Ceirion, Careb, Bryn Eglwys a'i ddyweddi ar eu priodas ar Fawrth 1af.

GWELLHAD. Gwyddom fod nifer ohonoch wedi bod yn sâl yn ddiweddar a rhai ohonoch wedi derbyn triniaethau. Anfonir ein dymuniadau gorau atoch a'n cofion anwylaf. Brysiau dithau wella hefyd Urien Deiniol, wedi i ti dorri dy goes wrth chwarae pêl-droed yng Nghaergybi.

CAU'r POST. Gyda thristwch i nifer o'r pentrefwyr, ar 19 Chwefror, caeodd Swyddfa'r Post a'r Siop. Ar hyn o bryd nid oes neb wedi dangos diddordeb i gymryd cyfrifoldeb am y naill fusnes na'r llall. Y gobaith yw y bydd rhywun yn fodlon cydio yn yr awenau a hwyrach roi gwasanaeth am ychydig oriau yr wythnos.

I wireddu hyn y mae angen lle, ac wrth reswm rhywun, i gynnal y gwasanaeth. Telir cyflog am y gwaith hwn. Os oes rhywun â diddordeb gellwch ffonio, 871219; 870533 neu 871920.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr oedd:

1. Gwen Roberts, Weirglodd Goch; 2. Brenda Richardson, 6 Bryn Hyfryd; 3. Elinor Jones, Gwyrfa, 2 Bron y Waen.

Atgoffir chwi, aelodau ffyddlon y Clwb Cant, ei bod hi'n amser adnewyddu'r tâl aelodaeth a diolchir i chwi am eich cefnogaeth eto eleni. Os dymuna unrhyw un ymuno â'r Clwb Cant, am 50c y mis neu £6 y flwyddyn, cysyllter â'r Trysorydd, Dafydd Williams, Meini Gleision, Brynrefail. (Ffôn 871754).

URDD ADUAN BENTREF. Cafwyd noson arbennig o ddifyr yng nghwmni'r Heddwes Philip Griffiths a'i gi ar 29 o Ionawr a diolchir yn fawr iawn iddo.

Bu'r aelodau yn brysyr yn gwneud Origami nos Fercher, 5 Chwefror gyda Bronwen a Kevin Jones. Bydd Cwis yng ngofal Geraint George wedi hanner tymor ac yna Dawbnsio Gwerin hefo Judith Harding i ddathlu Gŵyl Ddewi.

Dymuniadau gorau i'r aelodau fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail ar Ddydd ein Nawddsant.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nancy Jones, Meillionydd, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau yn ystod ac ar ôl dychwelyd o Ysbyty Llandudno. Gwerthfawrogi yr holl garedigrwydd.

TWF. Pwrpas TWF yw sicrhau fod rhieni mewn ardaloedd fel Arfon a Dwyfor yn rhoi'r cyfle i'w plant fod yn ddwyieithog. Yn Arfon fe fydd Sesiwn o Hwyl i blant bach yn cael ei chynnal yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Caernarfon ar ddydd Gwener, 14 Mawrth rhwng 10 ac 1.00 o'r gloch. Mynediad yn rhad ac am ddim!

'Mae lle i ddathlu,' medd Eliabeth Woodcock, Tŷ Gwyn, Waen, Swyddog Maes TWF yn ardal Arfon a Dwyfor. 'Cafodd TWF ei lansio union flwyddyn yn ôl yn y Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n un o'r rhai pwysica' i ddyfodol y Gymraeg.'

Felly os oes diddordeb gennych ymunwch yn yr Hwyl yn y Ganolfan Hamdden. Pob dymuniad da i ymgyrch TWF. CROESO'N ÔL i Myfanwy a Dic, Tawerlfa, wedi chwe wythnos yn Seland Newydd. Treuliodd y ddau wyliau bendigedig yn yr haul tanbaid hefo'u merch, Gwenllian, a Carl ac Efa ac Iago.

TWF

Llund lle o hwyl i ddathlu pen-blwydd TWF

Mae rhieni a phlant o ardal Arfon a Dwyfor yn helpu un o ymgyrchoedd iaith pwysica' Cymru i ddathlu ei phen-blwydd yn un oed.

Fe fydd gan y rhaglen Twf reswm arall i ddathlu hefyd, wrth i ffigurau'r Cyfrifiad ddangos y cynnydd cynta' o fewn canrif yn nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg.

Holl bwrpas Twf yw ymgyrchu i sicrhau fod rhieni mewn ardaloedd fel Arfon a Dwyfor yn rhoi'r cyfle i'w plant fod yn ddwyieithog trwy allu siarad Cymraeg a Saesneg.

Fe fydd sesiynau hwyl i blant bach a theuluoedd yn cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru, gan amrywio o ddarlenn storïau i ddawnsio a chanu.

Yn Arfon fe fydd Sesiwn o Hwyl i blant bach yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Hamdden Arfon, Ffordd Bethel, Caernarfon ar ddydd Gwener, 14 Mawrth rhwng 10.00 ac 1.00 o'r gloch. Fe fydd pypedau Cwmni Cortyn, dawnsio gyda Dawns i Bawb, teganau meddal a chastell neidio, paentio wynebau a llawer mwy i ddiddanu'r plant a'u rheini / gwarchodwyr. Mynediad rhad ac am ddim!

'Mae gyda ni le i ddathlu,' meddai Elizabeth, swyddog maes Twf yn ardal Arfon a Dwyfor. 'Mae'r ymateb wedi bod yn dda iawn hyd yma gyda theuluoedd o bob math yn dangos diddordeb mawr.

'Mae mwy a mwy o rieni yn sylweddoli pa mor werthfawr yw cael Cymraeg yn ogystal â Saesneg, a chymaint mwy y bydd eu plant yn ei gael ym myd gwaith ac yn gymdeithasol.

'Y neges arall sydd hefyd yn gwneud argraff yw ei bod hi'n hawdd iawn i blant bach godi ieithoedd.'

Union flwyddyn yn ôl y cafodd Twf ei lansio yn y Cynulliad Cenedlaethol, pan ddywedodd y Gweinidog Diwylliant, Jenny Randerson, fod y rhaglen yn un o'r rhai pwysica' i ddyfodol yr iaith Gymraeg.

Roedd Gwynedd yn un o ardaloedd gwreiddiol y prosiect, sydd bellach wedi lledu tros y rhan fwyaf o Gymru ac wedi derbyn £1 miliwn yn rhagor o arian tros dair blynedd oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol.

Fe fydd yr wythnos o ddathlu yn digwydd ar hyd a lled Cymru. 'Y nod mwya' ydi cael hwyl,' meddai Elizabeth. 'Ryden ni eisiau dangos fod y Gymraeg yn fyw ac yn fywiog ac yn ychwanegiad at fywydau plant bach.'

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Elizabeth Woodcock ar (01286) 870121.

CEUNANT

Mr Owen Jones 'Y Garth'

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth sydyn. Nowie fel ei adnabu gan ei deulu a'i ffrindiau, ar brynhawn Mawrth, 28ain o Ionawr yn ei gartref yng nghwmni ei deulu.

Mab i'r diweddar Mr John R. a Kate Jones 'Bryn Ffynnon' Ceunant; yr ieuengaf o chwech o blant - pedwar brawd a dwy chwaer.

Colodd ei dad trwy ddamwain fawr yn Chwael Dinorwig pan oedd yn 13eg oed. Ymheng y flwyddyn dechreuodd yntau yn y chwael, ac yno y bu hyd nes i'r chwael gau yn 1969.

Pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed dilynodd ei Daid a'i chwaer fel arweinydd y gân gydag Olwen ei briod yng Nghapel y Ceunant, ac yn ddiweddarach bu yn un o'r Blaenoriaid hyd nes y caewyd y Capel. Roedd ef a'i deulu yn hoff iawn o hen Gapel bach y Ceunant a theimlwyd chwithdod pan gaewyd y drws am y tro olaf.

Bu Nowie ac Olwen yn cadw'r Tŷ Capel am un mlynedd ar ddeg, lle magwyd Owena, Eirlys a Gwynn.

Yna yn 1957 symudodd y teulu dros y caeau i'r Garth a'r Gweinidog ar y pryd, sef Mr Ifor Rowlands, a thri theulu o'r Ceunant i Awstralia.

Chwaelwr oedd Owen Jones (Nowie), ond roedd wedi datblygu i ffermio defaid a gwartheg du Cymreig gyda Gwynn y mab yn 'Y Garth'. Roedd yn weithiwr dygn iawn ac yn gymwynasgar iawn i'w gymdogion yn y Ceunant.

Bydd chwithdod mawr ar ei ôl ar yr aelwyd yn 'Y Garth'. lle bu yn gaeth am bron i dair blynedd ond

bu ei gariad a'i ofal am ei briod Olwen a hithau iddo yntau am bron i drigain o flynyddoedd yn gysur a boddhad mawr. Roedd yn falch iawn o'i blant, ei wyrion a'i wyresau, a Sioned a Meirion bach. Buont fel teulu clos iawn yn help a chysur mawr iddo ar ei aelwyd yn 'Y Garth'.

DIOLCHIADAU. Dymuna Olwen a'r plant a theulu'r diweddar Owen Jones, 'Y Garth' ddiolch o galon i'r llu cyfeillion a chydabod dros ardal eang am bob arwydd o gydymdeimlad a'r caredigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a hen daid annwyl iawn.

Diolch am y llu cardiau, llythyrau, ymweliadau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael o £550 a ddaeth i law tuag at Feddygfa Llanberis.

Diolch i'r Parchedig Dafydd Hughes a Chyfeillion Capel y Rhos am eu gwasanaeth, a'r organyddes Mrs Megan Williams am ei gwasanaeth gyda'r organ.

Hefyd, diolch i'r Parch Huw Gwynfa Roberts am arwain y gwasanaeth a'i deyrnged arbennig a chysurlawn, ac i'r Parch Geraint Hughes am ei gyfraniad a'i gydymdeimlad yntau.

Diolch o galon i'r Ymgymerwyr, E. W. Pritchard, Llanberis am drefniadau parchus a thrylwyr,

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DIOLCH. Hoffai Trystan, Cartref, Rhos Cynfi ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar 26 Ionawr. Diolch yn fawr i bawb.

SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Alan Parry, 19 Pentre Helen ar ei benodiad yn ofalwr/oruchwyliwr yn Tŷ Elidir, Stryd Fawr, Deiniolen. Dylid cyflwyno pob cais am logi ystafell yn Tŷ Elidir i Alan ar y rhif hwn: 07773 447 223.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Ysgol Gwaun Gynfi nos Lun, 11 Ionawr. Y siaradwr gwadd oedd Mr Maldwyn Thomas, a chawsom ganddo sgwrs ddifyr lle soniodd am ddylanwadau llenyddol arno, o'r Ferch o'r Sgêr hyd at Elizabeth Watkin Jones gyda'i llyfrau antur i blant. Diolchwyd yn gynnes iddo gan y llywydd, y Parch John Pritchard. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, sylwch, 25 Chwefror, pan fydd y Parch a Mrs Trefor Lewis yn dangos sleidiau o Cyprus ac yn dweud peth o hanes yr ynys.

LLONGYFARCHIADAU i Elena a Darren, Tŷ Plismon ar enedigaeth eu mab, Deian. Hefyd i'r ddau daid a nain newydd, Eian ac Aurwyn, Hafod Olau ac Eirian a Michael. Glwt-y-bont.

DYMUNA Elena a Darren, Tŷ Plismon, ddiolch o waelod calon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a gafwyd ar enedigaeth eu mab, Deian.

DYMUNA Bethan, 66 Pentre Helen ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r galwadau ffôn tra fu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Y gŵr gwadd yn y Gymdeithas y mis diwethaf oedd Mr Meirion Hughes, Gaernarfon. Tywysodd ni ar daith a wnaeth dros ddeng mlynedd yn ôl, i Fflandrys, gwlad Belg, gyda rhai o drigollon Trawsfynydd. Pwrpas y daith oedd dadorchuddio coflech i **Ellie Humphrey Evans**, 'Hedd Wyn' o fferm Yr Ysgwrn, Trawsfynydd.

Bu i Hedd Wyn, fel llawer Cymro, farw o'i glwyfau ym mrwydr

Ypres, ar 31 Gorffennaf 1917, ac yntau o fewn dyddiau i'w gadeirio yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw. Trwy siarad a dangos lluniau o'r daith daeth Meirion Hughes a rhan o'n hanes yn fyw i'n cof.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 3 Mawrth am saith o'r gloch. Y wraig wadd fydd Mrs Cynthia Saunders Davies, Bangor. Y testun fydd Dewi Sant ac ardal Tyddewi. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCHIAU. Dymuna Meri, John, Dyfan a Kathy, Ceris, Deiniolen ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam a Mamgu, ac am y gefnogaeth a amlygwyd gan y Parchedig John Pritchard a chyfeillion o'r ardal a oedd yn bresennol yn yr angladd. Bu farw Mrs Gwenteifi Jones ar 30 Ionawr yn 93 mlwydd oed yng Nghartref Henllan ger Llandysul. Diolch hefyd am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd gan weinyddesau Gofal Cartref yn ystod y blynyddoedd y bu'n byw yn Ceris. Gwerthfawrogir yn fawr iawn y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Gartref Henllan a Chapel y Gwernllwyn.

YSGOL GWAUN GYNFI

Croesi'r Ffordd. Wedi marwolaeth sydyn a thrist Mr W. Williams, apwyntwyd Mrs Glenda Jones yn fugail croesi'r ffordd i'r ysgol. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd.

Staff Newydd. Apwyntiwyd Mrs Sharon James yn lanhawraig yn yr ysgol. Croeso cynnes iddi a dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.

Ffarwelwyd hefyd â Mrs Lynda Owen a Mrs Sian Roberts a oedd yn goruchwyllo'r plant amser cinio. Diolch yn fawr iddynt am eu gwasanaeth a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Beauty and the Beast. Bu cwmni Theatr yr Ifanc yma'n perfformio'r sioe uchod dydd Iau, 8 Ionawr. **Pantomeim Hol Hol Hol** Bu plant adran y Babanod i gyd yn gweld y sioe yma yn Theatr Gwynedd ddydd Gwener, 31 Ionawr. Mwynhaodd pawb yn fawr iawn.

Cystadleuaeth Pêl-rwyd. Bu 15 o blant Bl.5 a 6 yn cymryd rhan

mewn twrnament ysgolion dalgylch Brynrefail ddydd Mercher, 5 Chwefror a hefyd yng Nghystadleuaeth Gogledd Gwynedd ar ddydd Gwener, 7 Chwefror.

Tynnu Lluniau. Bydd Mr J. C. Davies yma eto eleni ar ddydd Mawrth 25 Mawrth am 9.00 y bore. Mae croeso cynnes i blant y pentref sydd ddim yn mynychu'r ysgol ddod i'r ysgol am 9.00 y bore hwnnw.

Cwmni'r Frân Wen. Bu'r cwmni yn ymweld â phlant Blwyddyn 6 ddydd Llun, 24 Chwefror. Ymunodd plant Ysgol Penisarwaun gyda nhw.

Noswaith o Ddawns. Cynhelir noswaith o ddawns yn Theatr Gwynedd eto eleni. Bydd plant CA2 yn perfformio ddawns ddechrau Ebrill 2003 (dyddiad i'w gadarnhau).


Y Flwyddyn Newydd. Cafodd holl

blant yr ysgol brofi hen ddathliadau Cymreig y flwyddyn newydd ar ddechrau'r tymor a chafwyd gwasanaeth yn ymwneud â Santes Dwynwen i'r ysgol gyfan yn ogystal.

Merched y Wawr. Cyflwynodd Mrs Eirlys Williams a Mrs Buddug Jones y pecyn 'Merched yn yr Ail Ryfel Byd' i'r ysgol. Diolch yn fawr iawn iddynt. Bydd y pecyn yn adnodd gwerthfawr i'r plant weld sut roedd bywyd yn ystod yr adeg yma. (gweler y llun)

Gwyliau'r Pasg. Bydd yr ysgol yn cau ddydd Gwener, 11 Ebrill ac yn ail-agor ddydd Llun, 28 Ebrill.

DYMUNA Gareth a Melanie Roberts ddiolch i'r holl deulu, ffrindiau a chymdogion am y caredigrwydd a ddangoswyd i Gareth ar ôl triniaeth ar ei galon yn ysbytai Bangor a Manceinion. Mae Gareth gartref bellach ac yn gwella'n raddol.



Mrs Eirlys Williams a Mrs Buddug Jones yn cyflwyno'r pecyn 'Merched yn yr Ail Ryfel Byd' i'r ysgol.

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: 650218

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

Jones

Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

Ysgol Brynrefail

Trip Glan Llyn i ddisgyblion blwyddyn 7

Dyma oedd gan rai o'r criw i'w ddweud:

'Cyrraedd a bwyta llond bol, yna gemau potes o bob math cyn mynd i'r gwely a phawb wedi blino'n lân. Codi'n fore, brecwast ac i ffwrdd a ni i'r llafrn rollo, hwyl fawr ond o, y cleisiau!! Yna nofio, a coeliwch fi nid dyna'r unig amser i mi fod yn wlyb achos fe aethom i rwyfo, wel sôn am wlychu!!!

Wedi brecwast bore Sul cefais fy ngalw i fyny o flaen pawb a dyna beth oedd sioc, pawb yn canu pen-blwydd hapus, a rhoi cacen fawr hyfryd i mi, er i mi drio cadw'r peth yn ddistaw! Ond a dweud y gwir fe wnaeth hyn fy mhen-blwydd!!!!'

Siôn E Jones 7

'Roedd Glan Llyn yn GRÊT. Fe wnes i fwynhau y gweithgareddau a'r disgo, ond y pethau gorau oedd y nofio a'r dringo. Roedd y wal ddringo yn gymaint o sialens ac wrth ddatrys problemau roedd rhaid dcfnyddio'r meddwl lot fawr! Diolch i'r staff a'r swogs i gyd.'

Danny Griffith 7i

Y pethau gorau am Glan Llyn oedd y gemau potes oherwydd roedd yn hwyl a sbri ac oedd eich tim yn ennill yna roedd bocs o siocled ar gael. Gweithgareddau grêt, canwio ar draws y llyn, adciladu rafft, rhwyfo, bowllo deg a nofio. Bwyd arbennig o dda yn cnwedig y cinio dydd Sul, cystal â un mam. Un gair am y lle FFANTASTIC!! Rydw i'n edrych ymlaen at y flwyddyn ncsaf.'

Alex Lynes 7i

'Fe wnes i fwynhau pob un o'r gweithgareddau, ac yn gwybod y bydd y plant na ddaeth i Glan Llyn eleni yn siwr o fynd y flwyddyn ncsaf. Mi fydda i yno fel siot coelich fi.'

Osian Larsen 7i

'Cefais i a fy ffrindiau hwyl fawr. Fe wnes fwynhau'r disgo gyda'r grŵp 'TNT' yn perfformio yno. Gobeithio yn fawr y ca i fynd yno eto y flwyddyn nesaf.'

Lowri E Jones 7N



'Mae Glan Llyn yn lle gwyh, lle Cymreigaidd yng nghanol cefn gwlad Gwynedd ar lan Llyn Tegid. I feddwl mai Mis Ionawr oedd hi roedd y tywydd yn braf. Fy hoff weithgaredd i oedd adeiladu rafft allan o bedair casgen, rhaffau a digon o ddarnau o bren. Dau grŵp, y bechgyn a'r genethod. Mynnod rhai o'r bechgyn wahanu yn ddau

grŵp - 'typical' o'r hogia! Yr un orau oedd un y genod am ein bod wedi gweithio hefo'n gilydd o'r dechrau i'r diwedd. Cawsom fynd ar y rafft ar y dŵr a llwyddodd pob geneth i aros ar y rafft ond disgynnodd tua phump o'r bechgyn i'r dŵr! Nhw oedd yn cwyno bod y dŵr yn oer, ni allaf gadarnhau hyn!! Profiadau bythgofiadwy.'

Bethan Williams 7N

'Fy hoff weithgaredd i oedd adciladu rafft er iddi suddo a minnau yn disgyn i'r llyn!! Bwyd hyfryd, llofftydd cyfforddus iawn a digon o hwyl gyda ffrindiau hen a newydd. Byddwn yn mynd yn ôl ar fy union.'

Rhian Elin George 7N

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Elin y gogyddes wych

Cafodd disgyblion blwyddyn 11, Ysgol Brynrefail gyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth arlwyyo yn yr ysgol. Elin Roberts o Llanberis oedd yn fuddugol, ac aeth am Gaerdydd i'n cynrychioli, ynghyd ag un disgybl etholedig o chwech ysgol gyfagos. Cystadleuaeth ar gyfer Cymru gyfan wedi ei noddi gan 'Sbring board' ar gyfer disgyblion ysgol, i ddarganfod cogydd/cogyddes y dyfodol oedd hon. Treuliodd Elin dair noson yn y brifddinas yn ystod mis Ionawr, gan aros yn y Brifysgol.

Er na ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth, mae'n rhaid ei llongyfarch, gan iddi gael ei chynnwys yn y rownd derfynol o chwech. Cyflwynwyd plât iddi i gofio'r achlysur.

Dywedodd Elin ei bod wedi elwa llawer o'r profiad gan ddysgu am agweddau ar sut i ymdopi dan bwysau a sut i reoli amser wrth goginio. Mae Elin yn bwriadu dilyn gyrfa mewn arlwyyaeth, ond fel dietegydd yn hytrach na chogyddes. Dymuna Elin ddiolch o galon i Mrs Rhian Ellis Owen am y cyfle a'r gefnogaeth.

Cenin Eifion



Siec i Gymorth Cristnogol



Yn dilyn Gwasanaeth Carolau yr ysgol yn Eglwys Sant Padarn Llanberis cyflwynodd ein prif ddisgyblion siec o £157 i Anna Jane Evans o Gymorth Cristnogol.



Miss Catherine M. Rowlands yn derbyn ei hanrheg wedi blynyddoedd lawer o waith yn yr ysgol. Bu'r hanes llawn yn y rhifyn olaf o'r Eco.

Nofio Brynrefail

Unwaith eto y mis yma mae'r nofio yn cymryd drosodd newyddion chwaraeon yr ysgol. Y mis diwethaf fe fuodd disgyblion o'r ysgol yn cystadlu ym Mhencampwriaethau Cymru yr Urdd ym Mangor. Ac wrth gwrs roedd Eifion Williams yn ei chanol hi unwaith eto, gyda buddugoliaeth yn y ras pili-pala a hefyd buddugoliaeth yn y ras gymysg unigol. Ond nid Eifion yn unig a arnofiodd ar y brig y mis yma. Fe wnaeth Nicky Hill yn dda iawn i ddod yn ail yn y ras bili-pala i ferched blynyddoedd 11eg ac uwch, a Sion Humphreys yn 8fed yn y nofio rhydd i fechgyn blwyddyn 9 a 10.

Nid nofio unigol yn unig a lwyddodd i wneud yn dda ar y noson. Yr unig dim cyfnewid o'r ysgol oedd tîm cyfnewid bechgyn blwyddyn 7 ac 8, gyda Tomos Parry, Huw Humphreys a Sion Garth o flwyddyn 8 ac Iwan Arwel o flwyddyn 7, a lwyddodd i ddod yn bedwerydd. Llongyfarchiadau i bawb a fu yn cystadlu ac a ddaeth yn fuddugol.

Geraint Iwan.

Cyngerdd Telyn

Ar Ionawr 28 aeth disgyblion telyn a myfyrwyr cerdd 6ed dosbarth yr ysgol i Ysgol Dyffryn Nantlle am brynhawn i gyngerdd telyn.

Perfformiodd Catrin Finch, merch 23 oed o ger Aberaeron sydd yn delynores i Dywysog Charles, yn wych am awr.

Pan oedd yn 16 oed, symudodd i Lundain i astudio yn y 'Purcell School'. Erbyn hyn mae hi'n astudio yn y 'Royal Accademy of Music'. Mae hi wedi bod yn chwarae ar draws Ewrop a'r Dwyrain Canol ac wedi ymddangos ar raglenni teledu fel 'Blue Peter' yn 1989.

Yn y cyngerdd chwaraeodd ddarnau o gyfnod cynnar y Baroc hyd at yr ugeinfed ganrif. Chwaraeodd lawer o ddarnau jazz oedd yn dangos technegau byrfyfyr gwyh.

Mae gwaith Catrin yn boblogaidd ar draws Lloegr, 'Catrin's youth, confidence and personal style is transforming the image of Wales's national instrument'.

Western Mail, Ebrill 2002

'Catrin Finch displayed not only supreme technical ability, but a musicality far beyond her years... A star is born'

Liverpool Daily Post, Tachwedd 1999

Mwynhaodd disgyblion Ysgol Brynrefail y cyngerdd yn fawr iawn, a hoffem ddiolch i Gynllwyn Celf Caernarfon am ei gynnal.

Emma Jones
a Nia Hughes.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

BORE COFFI. Cynhelir Bore Coffi yn Y Bistro, Llanberis ar 7 Mawrth, 10.30 - 12.00, er budd Hospis Menai.

DYMUNA Nancy Williams, Stryd y Dŵr, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu cardiau a'u dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Hefyd diolch arbennig i aelodau Clwb y Mamau am y wledd a gafodd.

DIOLCH. Dymuna Mairwen a Dilys ddiolch i bawb am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled sydyn o golli Mam, Nain a Hen Nain annwyl iawn, sef Clara Roberts, Anfield, 4 Coed y Ddôl, Llanberis. **DIOLCH.** Dymuna Mairwen Baylis ddiolch i bawb am y dymuniadau da a dderbyniodd tra yn cael triniaeth yn yr ysbyty. Diolch am yr

holl flodau, cardiau, galwadau ffôn ac i'r ysbyty. Diolch yn arbennig i staff Ward Ffrancon, Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

DYMUNA Delyth Hughes, 6 Fron Goch ddiolch yn fawr iawn i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a gafodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch hefyd i barti Lleisiau Lliwedd am y noson fythgofiadwy yn y Bistro. **PRIODAS DDIAMWNT.**

Llongyfarchiadau i Alun a Gaynor Lloyd Jones, 4 Glanrafon Bungalows, Llanberis a fu'n dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar. Dymuna'r ddau ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion ac i'w teulu a'u cyfeillion a fu'n dathlu'r diwrnod arbennig gyda nhw.



Mr a Mrs Jones â cherdyn gan y Frenhines.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Lienni Venetian a Lienni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

antur WAUNFAWR

Cynllun Ddodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau
nwyddau trydanol,
yn arbennig pop tai, oergelloedd,
peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n
addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim


☎ 01286 674 155
www.anturwaunfawr.org



NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



Meirion a Rhian ar ddydd eu priodas, Mawrth 2il, 1963.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Meirion a Rhian Pritchard, Tŷ Isa, a fydd yn dathlu eu priodas rhuddem ar yr ail o Fawrth. Pob hwyl ar y dathlu!

LLONGYFARCHIADAU i Manon Pritchard, Fron, ar basio ei Gradd 1 Piano yn ddiweddar. Dal ati!

Gŵyl Ffair Nant
Medi 14 - 20, 2003.
Cystadleuaeth Tynnu Lluniau
- yn Agored i Bawb

Tynnu llun gyda chamera, neu ddeunydd paentio neu frodwaith yn ymwneud â Nant Peris a'r ardal. Fe fydd y llun buddugol yn

cael ei wobrwyo a'i ddefnyddio i greu cardiau Nadolig a/neu galendr yr ŵyl. Os hoffech gystadlu, rhwch eich enw a'ch cyfeiriad mewn amlen ac ysgrifennwch eich ffugenw ar y blaen, a'i gyrru gyda'ch llun(iau) at Mrs Gwenda Roberts, Glanrafon, Nant Peris. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Llinos 01286 871820. **LLONGYFARCHIADAU** i Sara Davies, Tan Bryn, ar basio ei arholiadau cyfrifeg terfynol. Pob llwyddiant i'r dyfodol.

DRAENOG MYND DROT DROT

Does dim ond gobeithio fod perchennog gwesty nid anenwog yn Llanberis ar wella yn dilyn anffawd anffodus noswyl Nadolig. Pan glywodd, yng nghanol ei brysurddeb, fod un o'i geffylau wedi dianc aeth yn syth ar ei ôl, a hynny yn hyderus, yn null ei arwr mawr - John Wayne. Yn anffodus nid oedd doniau greddfod y seren ffilmiau gan y cowboi o Lanbêr. Aeth y grefft o 'laswio' yn drech nag o, ac fe'i bwriwyd yn ddiseremoni ar wastad ei gefn i ganol mwd!

Trasiedi'r ddrama anffodus ydi'r ffaith fod y tafarnwr dewr newydd ddysgu tair unawd newydd ar gyfer cyngherddau Côr Dyffryn Peris - 'Mae Gen i Farch Glas', 'My Four Legged Friend' a 'Gee Ceffyl Bach'. Mae'r tair cân bellach wedi eu ffrwyno - dros dro beth bynnag!

CWRS ALFFA

Cyflwyniad ymarferol
i'r ffydd Gristnogol
i bobl o bob cefndir
Caban y Cwm,
Cwm-y-glo

Yn cychwyn 7 y.h.,
13 Mawrth

Cwrs 10 wythnos
am ddim

Am fanylion a ffurflen
gofrestru ffoniwch
(01286) 871042

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**

neu **Caernarfon**

Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr:

£40: Mr Wyre Thomas, Weirglodd Fawr; £25: Mrs C. Jones, Bryn Gwenallt; £10: Mrs Katie Roberts, 27 Tref Eilian.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod y Sefydliad ar 6 Chwefror, croesawodd Mrs Catherine A. Jones, y Llywydd, yr aelodau gan egluro fod Dr Hugh Roberts, yn affodus iawn, yn methu bod yn bresennol o achos pwysau gwaith. O dan yr amgylchiadau fe gytunodd Terry McDaid i roi sgwrs gyda fideo yn sôn am y gwaith ardderchog sy'n cael ei wneud gan aelodau Pwyllgor 'Chernobyl Children Lifeline'.

Mae Terry a Menna McDaid yn gweithio'n galed iawn gyda'r pwyllgor yma. Maent wedi cael plant ac athrawon i aros gyda nhw am fis ar y tro. Roedd athrawes a bachgen bach o Belarus yn y cyfarfod yma a chroesawyd hwy gan y Llywydd. Gwnaed casgliad ymysg yr aelodau a throsglwyddwyd £30 tuag at y gwaith da yma.

Mis Mawrth byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Mr a Mrs Bob Eaglestone.

CLWB BOWLIO. Mae aelodau'r Clwb yn ddiolchgar iawn i Gwalia Garej, Caeathro a Pant Waun Garej am noddi'r Clwb. Mae'r aelodau ar hyn o bryd yn chwarae gemau am y gwobrau yma.

PRIODAS. Llongyfarchiadau i Belinda a Martin Rowlands, Bryn Derwen ar eu priodas yn ddiweddar.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Dymunwn yn dda i Mrs Catherine Williams, Stad Tŷ Hen ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed ar 1 Mawrth.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Mrs Nia Griffith, Stad Tŷ Hen, ac i Mr Rol Williams, Ardwyn, wedi iddo gael triniaeth i'w lygaid.

Anfonwn ein cofion at Mr Raymond Parry, Ffridd Felan, wedi iddo ddisgyn a thorri ei fraich.

Da deall fod Manon Evans, Arfryn, yn gwella wedi iddi gael damwain car.

APÊL. Oherwydd amgylchiadau fe newidiwyd ein dyddiad plygu yr Eco ni i nos Iau, 27 Mawrth. Gobeithio yn fawr y daw nifer ohonoch i roi help llaw gyda'r gwaith i festri Capel Croesywaun. Byddwn yn cychwyn ar y gwaith o gwmpas 5 o'r gloch. Plis dowch i helpu.

O Benisarwaun i Beriw

Mac clusen genedlaethol sydd â chefnogaeth gref yn Ngwynedd yn anfon tîm o wirfoddolwyr i wlad Periw. Rydd Elizabeth Woodcock o Benisarwaun yn un o'r tîm, a fydd yn cael eu harwain gan Miriam Evans o Lanfrothen.

Mae Tearfund yn clusen Gristnogol sy'n hyrwyddo datblygiad drwy gydweithio gyda phartneriaid. Mae gan yr elusen dros 400 o brosiectau partneriaid yn fydd-cang. Yng ngwlad Periw mae Tearfund yn cefnogi partneriaid sy'n cryfhau bywoliaeth, hawliau a lles pobl gynhenid y wlad. Hefyd, mae Tearfund yn hybu partneriaid i hybu hyder merched gan adeiladu rhwydweithiau i roi pwysau ar y rhai sy'n cymryd penderfyniadau er mwyn sicrhau fod adnoddau yn cael eu rhannu.

Fe ddywed Elizabeth, 'Rwy'n edrych ymlaen i gael gweld y gwaith gyda'm llygaid fy hunan, yn cnwedig y gwaith a wneir gan ein partner AGAPE gyda phlant y stryd yn Lima.' Ei gobaith yw y bydd ei thaith yno ddiwedd y mis hwn yn cynnig profiadau a dealltwriaeth a fydd o gymorth iddi yn ei gwaith gyda Tearfund. Mae Elizabeth yn helpu eglwysi yn ardal Arfon i ddefnyddio adnoddau Tearfund yn ystod eu gwasanaethau, a gyda'u gwaith gydag Ysgolion Sul a Grwpiau Ieuencid. Cysylltwch am fwy o wybodaeth am Tearfund, neu i dderbyn eu cylchgrawn chwarterol am ddim:

Elizabeth (01286) 807121 neu Prif Swyddfa Tearfund yng Nghymru (01970) 626006, neu alw ar www.tearfund.org.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis cang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff



ENERGY CYCLES

60 Stryd Fawr
Llanberis

Beics a Barcudau

Partiau a Thrwsio Beics

Beics Ffordd a Mynydd,
BMX, Triathlon

Barcudau Hwyl, Chwaraeon
a Delta Powerkites.

Dewis Da

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne



Oriau Agor

Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:
Iau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun
Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar
agor tan 6 pm

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

BEDYDDIO. Ar 2 Chwefror cynhaliwyd y Gwasanaeth Bedyddio cyntaf yn ôl yn y Capel ar ei newydd wedd. Bedyddiodd y Parchedig Huw Dylan, Y Bala, Iestyn Rhys, mab Arwel a Llio, Glanrafon Bach; Elan Haf, merch Dewi a Catrin, Erw Wen a Dafydd, mab Eryl a Gwenno, Bryn Mair. Dysgodd y plant a oedd yn bresennol neges y gwasanaeth bedyddio fel rhan o wasanaeth syml, ond urddasol gan y Gweinidog.

ADRE O'R YSBYTY. Croeso yn ôl i'r pentref i Mair Roberts, Caeathro Bach; Doris Muhlenfell, Tai Glangwna ac Alun Roberts, Erw Wen ar ôl cyfnodau mewn ysbytai.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Mawrth.

2 am 11.00 yr Ysgol Sul;
2.00 Parch Gwenda Richards;
9 am 11.00 yr Ysgol Sul;
2.00 y Parch Trefor Jones;
16 am 11.00 yr Ysgol Sul;
23 am 11.00 yr Ysgol Sul;
2.00 y Parch Ronald Williams;
30 am 11.00 yr Ysgol Sul.
Cynhelir cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith am 7.30 yr hwyr nos lau, 20 Mawrth.

GROESO YN ÔL. Groeso i Llyr Morris, mab Eric Roberts, 12 Erw Wen gynt, yn ôl i Gaeathro, Fo, bellach, yw perchennog Penrhos.

CLWB Y MERCHED. Cynhaliwyd y noson gyntaf o'r Clwb newydd

yn y Ganolfan nos lau, 23 Ionawr. Cafwyd sgwrs gyfeillgar ymysg yr aelodau. Etholwyd y Pwyllgor newydd fel a ganlyn:

Cadeirydd: Mrs Marian Huws; Ysgrifennydd: Mrs Dilys Griffiths; Cynorthwy-ydd Ysgrifenyddol: Mrs Rhiannon Roberts; Trysoryddion: Mrs Vera Roberts a Mrs Norma Evans.

Cafwyd te a bisgedi wedi ei baratoi gan Kathy, Vera a Heather. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf nos lau, 27 Chwefror am 8.00 o'r gloch gyda chyfle i fwynhau pryd o fwyd yn Bryn Gwna. Estynnwyd croeso cynnes i bawb, yn cynnwys yr aelodau hynny a fethodd fynychu'r cyfarfod cyntaf. Bydd croeso i unrhyw un ddod a chyfaill i holl weithgareddau'r Clwb, yn arbennig y cyfarfod nesaf yng Nghanolfan y Capel ar nos lau, 27 Mawrth.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar gyfer mis Chwefror yw: £40: (78) Mary Henderson, 6 Erw Wen; £25: (101) Dewi Parry, Cefn Rhos; £15 (47) Norman Davies, 7 Tai Glangwna; £5: (42) Pepi Everett, 21 Tai Glangwna.

PWYLLGOR CODI ARIAN. Bydd y cyfarfod nesaf am 7.00 yr hwyr yng Nghanolfan y Capel ar nos Fercher, 5 Mawrth. Y prif eitem fydd manylu ynglŷn â llwyfannu noson 'Brethyn Cartref' ar nos Lun, 7 Ebrill.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod diweddar o'r clwb uchod rhoddwyd sgwrs gan yr Is-lywydd, John Brennan, am ei brofiadau tra'n gwasanaethu yn yr Awyrlu yn Llanberis ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Ei waith oedd arwain tîm i ddifa bomiau a ffrwydron a adawyd ar ôl yn nhyllau chwarel Glyn Rhonwy. Dymunwyd yn dda i Rose Cantrell ar ei phen-blwydd a chafwyd cyfle i weld lluniau o'r cinio Nadolig, a dynnwyd gan John Cantrell.

Cafwyd adroddiad o'r sefyllfa ariannol gan Betty Bower a da deall fod y sefyllfa yn reit iach. Gwnaed amryw o awgrymiadau o leodd difyr i ymweld â hwy ac o wahanol weithgareddau y gellid eu gwneud yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Cafwyd adroddiad gan Ray Bower am y bwriad i godi cofeb i'r chwarelwyr a laddwyd wrth eu gwaith, ac i'r rhai a foddwyd yn y drychineb ym Mhwllleli.

Ray a Betty Bower a roddodd y te a gwobrau'r raffl. Yr enillwyr oedd Evelyn Braithwaite, Margaret Faulkener ac Andrew Griffith.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror cytunwyd i gefnogi'r ymdrech i gynnal ysgol yn Gambia gan Gymdeithas

Guides y Sir ac i gerdded milltir er budd Cronfa Nyrsus Macmillan. Estynnwyd croeso i aelod newydd, sef Kathleen Davies. Cafwyd sesiwn gerddorol dan ofal Ray Bower. Yn gofalu am y te roedd Evelyn Braithwaite a Pat Ingle ac enillwyr y raffl oedd Alice Griffith a Margaret Faulkener.

MEDAL GEE. Yr ydym fel ardal yn falch iawn o ddeall fod gwybodaeth wedi ei dderbyn y bydd Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian yn derbyn Medal Gee am ei ffyddlondeb i'r Ysgol Sul yma yn Ninorwig ar hyd y blynyddoedd, ac ar ôl cau y capel mae yn dal i gynnal yr Ysgol Sul yn ei chartref, a'r plant wrth eu bodd yn cael mynd yno. Bydd yn derbyn y fedal yn ystod cyfarfodydd blynyddol Cyngor Eglwys Rhyddion y Gogledd a gaiff eu cynnal ym Mhorthaethwy, dydd lau 22 Mai. Llongyfarchiadau mawr i chwi Mrs Hughes a daliwch ati.

CWYNO. Y mae llawer yn cywno yn yr ardal ar hyn o bryd. Ga'i ddymuno adferiad iechyd llwyr a buan iddynt a gobeithio y cawn eu gweld allan unwaith eto pan ddaw y gwanwyn. Felly pawb sydd yn cwyno, brysiwch wella.

I Ddarllenwyr

Driblwr Disglair

Anne Fine

Ifanc Sali Mali Roald Dahl

Dic a Dei a Delyth

Philip Pullman

Rala Rwdins

Clwb Cysgu Cwl

Harry Potter

Caleb y Cwch Achub

Llyfrau da

Cydio Mewn Cwilsyn

yn lleol

Y Weledigaeth Geltaidd

Y Fenai Co Bach

Hen Friwiau Mihangel Morgan

Bethan Gwanas

Eirug Wyn Angharad Price

Stwff y Stomp

Iancs Conshis a Spam

Palas

PRINT

7B Stryd y Plas,
Caernarfon

01286 674631

eirian@palasprint.com

10%

o ddisgownt i ddarllenwyr y Papur Bro yma!

torrwch yr hysbyseb hon (neu dowch â'r papur cyfan) a'i chyflwyno i'r siop i hawlio eich disgownt.

Derbynnir tocyn mantais
DIWRNOD Y LLYFR
a roddir i bob
plentyn
ysgol



Gan ei bod yn Wythnos y Llyfr dyma adolygiad o un o lyfrau'r 'Dolig a fydd, gobeithio, o ddiddordeb i rai ohonoch

Y BYD MAWR CRWN

gan Dylan Llywelyn

Rwy' i'n hoffi pêl-droed. Ond mae'n amlwg nad ydw i'n hoffi pêl-droed cweit cymaint â Dylan Llewelyn, sydd wedi dilyn tîm Cymru i'r llefydd mwya anghysbell, diarffordd ac anghroesawgar yn enw 'cefnogi'.

Mae'r gyfrol hon yn gasgliad o amrywiol hanesion, o'r teithiau hynny a mwy, wedi'u hadrodd gan ffan sy ddim yn ymddiheuro am ei mania ond yn ei gydnabod yn agored. Mae'r awdur yn disgrifio'r 'salwch' i'r dim fel 'clwy traed ac enaid' - ac mae'r arddull sgyrsiol-athronyddol y mae'n ei defnyddio i adrodd ei hanes, fel siarad â ffrind mewn tafarn, yn eich tynnu chi i fewn i'r digwydd yn syth.

Cyfrol seminal Nick Hornby, Fever Pitch, yw'r dylanwad amlwg. Ac yn ddiddorol ddigon, mae'r ddwy gyfrol yn 'dechrau' - i'r cymeriadau sy'n adrodd y straeon - gyda'r un gêm, sef rownd derfynol Cwpan FA Lloegr ym 1971, rhwng Arsenal a Lerpwl. Arsenal yn ennill - a'r canlyniad yn dedfrydu Hornby i oes o ddilyn y 'Gunners' a Llewelyn i'r un dynged gyda Lerpwl. (Mae ei ddisgrifiad o Charlie George, arwr Arsenal ar y diwrnod hwnnw, pariah Lerpwl, fel 'llipryn hipi' yn hyfryd, gyda llaw.)

Ond os oedd dyddiau 'boring, boring Arsenal' yn artaith i Nick Hornby, yna o leia mae'r cyfnod diweddar yn Highbury wedi llwyddo i wella'r briwiau. Ond i Dylan Llewelyn, a gweddill cefnogwyr Cymru, mae'r aros am ddiweddglo hapus wedi bod tipyn hirach. Mae chwaraewyr Mark Hughes yn addo pethau mawr ar hyn o bryd, ond mae'r awdur-gefnogwr wedi gweld digon o siomedigaethau munud-ola i wybod nad ar ddechrau ymgyrch y mae bwcio'r tocynnau awyren i'r rowndiau terfynol - er iddo fynd yn erbyn ei gyngor ei hun ambell waith, fel ym 1993 yn erbyn Rwmania, pan oedd Cymru o fewn un gic o'r smotyn (Paul Bodin!) i gyrraedd Cwpan y Byd yn America. (Roeddwn i yn y gêm honno hefyd, gyda llaw. Noson fy mhcn-blwydd

yn 17 oed oedd hi, ac roedd fy nhad, fel anrheg annisgwyl, wedi cael gafael ar ddau docyn reit ar flaen y South Upper fel yr oedd hi yn yr hen stadiwm. Ac fel cynifer o gefnogwyr craill roeddwn i wedi gweithio'r gêm i mewn i dynged fool-proof personol oedd yn ei gwneud hi'n amhosib i Gymru fethu. Methu wnaethon nhw, wrth gwrs.)

Ac mae'r ffaith honno'n diffinio prif ddiddordeb y gyfrol hon, sef y felltith o orfod cefnogi tîm nad yw'n llwyddo ond yn achlysurol iawn iawn. 'Pam?' yw'r cwestiwn amlwg. 'A pham dal i wneud yn wyneb pob siom?' ymhellach. Mae'r ateb, rwy'n amau - nid fy mod i am gynnig ateb chwaith! - ar yr un pryd yn hynod o syml a hefyd yn anfeidrol gymhleth. A dyma lle mae 'calon emosynol' y gyfrol hon, neu'i 'henaid' fel y dywed yr awdur. Mae'r ffaith o fod yn 'gaeth' i Gymru er gwaetha popeth yn amlwg yn cymell darlenniadau eraill, gwleidyddol er enghraifft. Mae hynny'n ddigon amlwg, ond lawn mor ddiddorol yw'r ffenomen ar ei gwedd bersonol. Y syniad o'r hunan ac o eraill, brawdoliaeth (yn enwedig brawdoliaeth ryngwladol y byd pêl-droed), hunan-werth a pheth wmbredd o bethau 'mawr' eraill. 'All that I know most surely about morality and obligations, I owe to football,' chwedl Albert Camus, oedd yn gôl-geidwad eitha handi ei hun.

Ond yn rhyfedd ddigon, mae'r llyfr yn enghreifftio'r pethau hyn orau pan nad yw'n mynd ati'n fwriadol i geisio'u trafod. Mae yna lawer o bytiau o wybodaeth am wahanol lefydd a chymdeithasau a phobl, sydd yn ddiddorol iawn - fel hanes trip brawychus i dlodi Bwcaest, er enghraifft - ond roeddwn i'n teimlo weithiau nad oedden nhw'n rhan naturiol o lif y 'sgwrs' yn y llyfr. Mae'r rhannau gorau i'w cael, yn fy marn i beth bynnag, pan fo Dylan yn adrodd hanes syml ei siom a'i obaith diffuant am wellhad. A bron nad yw'r peth wedyn yn magu rhyw nobility annisgwyl...

Mae'r gyfrol hon yn ateb sawl un o ofynion y bobl hynny sy'n crefu am lyfrau Cymraeg da a phoblogaidd. Mae hi'n ddarlennadwy, yn ddifyr ac yn ddoniol.

OWEN MARTELL

AdoFlygiad oddi ar
www.gwales.com, trwy ganiatâd
Cyngor Llyfrau Cymru

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

LLONGYFARCHIADAU i Carys, Glan-y-Don ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Norman Fowler, Bodlondeb, Linda a John, Kathrine, Ian a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli priod, mam, nain a hen nain annwyl. Bydd colled i'r ardal ar ôl Mrs Rose Fowler a oedd bob amser â gwên siriol yn y 'siop chips'.

MARWOLAETH. Yn dawel yng nghwmni ei theulu yn Ysbyty Bryn Seiont ar Chwefror 13 ar ôl cystudd hir a blin bu farw Miss Megan Price (gynt o Stryd Newydd). Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mr Gareth Jones, Dôl Afon ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn nos Lun, 3 Chwefror yn yr Ysgol Gymuned. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Mrs Margaret Latham a chafwyd gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Curad Vittoria Hancock, Mrs Enid Taylor a Mrs Dorothy Jones. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Rhagfyr a thrafodwyd rhai materion a godwyd ym mhwyllgor y Ddeoniaeth a gynhaliwyd ym Mhorthmadog. Croesawodd Mrs

Latham ein gwraig wadd, Mrs Margaret Jones o Gaernarfon. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn am y cyfnod o'i bywyd, rhwng 1944-47, pan ymunodd â'r ATS ac anfonwyd hi i dreulio amser yn yr Aifft a De Affrica. Mwynhawyd y noson gan bawb.

Y gwsteion oedd Mrs Dorothy Jones a Miss Meira Williams. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Dorothy Jones ac fe'i henillwyd gan Mrs Kath Jones. Diolchwyd i Mrs Jones a'r gwsteion gan Mrs Marjorie Roberts. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd Y Gras.

Ymunwch â Thîm yr Eco

Oes gennych chi ddiddordeb mewn creu papur newydd?

Oes gennych chi ddiddordeb yn eich bro a'i phobl?

Ydych chi eisiau dod i adnabod eich cymuned?

Yna ymunwch â thîm yr Eco

Cysylltwch â'r rhifau ar dudalen 2 am fwy o wybodaeth sut y gallwch chi fod yn rhan o'r tîm.

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

R. L. DAVIES

Good Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tonnelli
diggers bychain ac excavators 360° newydd
a llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300

neu (07775) 638620

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

chofiar yn dda i mi gychwyn am 8.15 y bore o odre'r Ceunant hyd lwybrau anhygyrch, heibio Castell Bryn Bras, dros y Bwlch i Gwmyglo, dros Gors Llwyncoed a Phen Llyn i Frynrefail erbyn naw.

Gwneid pob defnydd o'r daith i ddysgu gwersi ar lafar cyn dechrau'r dydd. Lawer tro bûm yn llafarganu y rheolau Lladin er mwyn eu serio yn y cof am byth. Gallaf adrodd rai ohonynt heddiw ar ôl pedwar ugain mlynedd, fel *hic, haec, hoc, idem, eadem, idem a amo, amas, amat* ayb.

Ar ddrycin gallem gerdded i Groeslon Marc at y bws. Doedd fawr o saf ar amserau Bws D.M. a gwnai unrhyw gerbyd y tro i fynd â'r plant i'r ysgol.

Y tro doniolaf imi gofio bûm yn un o bedwar ar ddeg ar Morris Cowley coch 'two seater' Frank Prichard. Tri neu bedwar ar liniau ei gilydd yn y sedd flaen a hefyd yn y 'dici' tu ôl, dau neu dri ar gamfa led ar y bonc o'i flaen ac craill ar y 'mudguards'. Frank yn gweiddi ar iddynt wyro iddo gael gweld y ffordd. Fe gyrhaeddwyd yr ysgol rhywfodd yn ddi-anaf a thalu am y pás gwyllt.

Ar Sadyrnau byddai cyfle i hogyn ysgol ennill tipyn o bres wrth fod yn docynnwr ar rai o 'fysus bach y wlad'. Gan fy mod yn ffrindiau efo Idwal Phillips, Bryn Hafod, un o'r gyrrwyr, cawn gyfle i dreulio'r Sadwrn ar olwynion, yn groes i'm athro Lladin, Mr D. R. Griffith, gan y credai fy mod yn esgeuluso fy nhasg ac yn cadw cwmni annymunol yn ôl ei dyb ef. Ond peth garw yw tlodi a byddai ennill ychydig geiniogau yn rhoi rhyw ernes eich bod o ddifri am weithio.

Diwrnod y Llyfr

Wydddech chi mai yng Ngatalonia y dechreuodd Diwrnod y Llyfr? Ers dros 80 o flynyddoedd mae'n draddodiad yng Nghatalonia i roi rhosyn a llyfr i'ch cariad ar ddiwrnod Sant Sior. Tipyn gwell na siocled os 'da chi'n gofyn i mi!

Erbyn hyn, mae'r arferiad o gynnal diwrnod y llyfr wedi ymestyn i dros 30 o wledydd, gan ddatblygu i fod yn ŵyl fyd-eang, a llynedd dynodwyd Diwrnod y Llyfr yn Ddiwrnod Llyfr y Byd.

Dim ond ers chwe mlynedd 'da ni wedi bod yn dathlu diwrnod y llyfr ym Mhrydain, ac nid gŵyl cariadon yw'r dathliad yma, ond yn hytrach, diwrnod i annog plant i ddarllen ac i fwynhau llyfrau. Er mwyn hybu darllen ymysg plant, mae pob plentyn ysgol yn derbyn tocyn llyfr gwerth £1 am ddim i'w gyfnewid am lyfr o'u dewis ar Ddiwrnod y Llyfr, ac mae nifer o ysgolion a llyfrgelloedd yn trefnu gweithgareddau, gan gynnwys ymweliadau gan awduron a sesiynnau sgwennu.

Ond, nid dim ond gŵyl i blant yw diwrnod y llyfr. Bydd rheiny ohonoch sy'n gwrandao ar Radio 4 yn ymwybodol bod cyfle wedi bod i bleidleisio dros lyfrau sy'n cynrychioli Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon heddiw.

Am fanylion pellach am ddiwrnod y llyfr gweler www.worldbookday.com

Annwyl Gyfeillion,

Yn dilyn yr Ŵyl Gerdd Dant lwyddiannus a gynhaliwyd yn Nolgellau y llynedd, fe fydd ardal Aberystwyth yn falch o gael croesawu'r Ŵyl y flwyddyn hon (1 Tachwedd 2003). Eisoes mae'r pwyllgorau testunol wedi bod wrthi'n brysur yn paratoi cystadlaethau amrywiol ar eich cyfer ac mae'r pwyllgor cyhoeddusrwydd wedi sefydlu gwefan arbennig – www.gwylgerddant.org – lle ceir cefndir y grefft o ganu cerdd dant yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Ŵyl.

Er mwyn rhoi sylw pellach i Ŵyl Gerdd Dant Aberystwyth a'r cylch mae nifer o nwyddau amrywiol wedi cael eu paratoi. Un eitem arbennig yw plât yr Ŵyl, a chan mai 100 o blatiau yn unig a baratowyd am bris o £20 y maent yn nwyddau i'w trysori.

Dylai unrhyw un sydd am brynu un o'r platiau gysylltu â Hefin Jones ar Aberystwyth (01970) 615177.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r Ŵyl yn Aberystwyth ym mis Tachwedd. Yn gywir

Deian Creunant
Cadeirydd y Pwyllgor
Cyhoeddusrwydd

Un funud fach

Y FARGEN ORAU

Mi gefais ryw fath o fargen beth bynnag gan i mi ddod adref efo cylllell fach yn rhad ac ac am ddim. Ond mae'n bosib fy mod yr un pryd hefyd wedi colli'r fargen orau a gynigiwyd i mi ers talwm.

Mewn siop y clywais gyhoeddiad fod yna gyllell cegin am ddim i bawb. Gan fod angen cylllell fara newydd arnom mentrais i drydydd llawr y siop rhag ofn fod y fath gyllell i'w chael. 'Does angen dweud mai cylllell fechan oedd yn cael ei chynnig, ac mai amod derbyn honno oedd fy mod yn barod i wrando ar ddyn yn trio gwerthu cylllell oedd, yn ôl pob sôn, y gyllell orau'n bod! Arhosias yno i wrando arno'n brolio'r gyllell a'i weld yn ei defnyddio. Honnai na fyddai byth angen hogi'r gyllell. Roedd i'w chael am £20. A'r fargen ryfeddol? Dwy gyllell am £23! Ond os prynwn i ddwy am £23 mi gawn i drydedd cylllell hefyd... a chyllell bysgod am ddim! Ac wrth gwrs, fe gawn i'r gyllell fach hefyd... ond os prynwn i'r set gyflawn mi gawn i ddwy o'r rheiny hefyd! Ac am fod y dyn yn eithriadol o glên... roedd yn barod i roi trydedd cylllell fach unwaith y byddwn wedi talu'r £23. Ella mod i'n ffŵl, ond dois adref efo'r gyllell fach yn unig heb allu credu y byddai neb am roi gwerth £90 o gyllyll i mi am chwarter y pris.

Tybed oes yna bobl yn gwrthod cynnig yr Efengyl am eu bod yn credu nad oes modd i'r hyn a ddywedwn amdani fod yn wir. Fedran nhw ddim credu fod yr Efengyl yn wir bob gair; na'i bod yn newid bywydau; na'i bod yn ein cymodi â Duw ac â'n gilydd; na'i bod yn cynnig i ni'r ffordd i'r nefoedd. A fedran nhw ddim credu fod yr holl bethau hyn yn cael eu cynnig yn rhad ac am ddim, heb i ni orfod gwneud dim mwy na chredu yn yr Arglwydd Iesu Grist er mwyn eu cael. Does dim pris i'w dalu gennym ni. A dyna'r peth anoddaf un i lawer o bobl – cyfaddef eu bod yn hollol analluog i wneud unrhyw beth i haeddu'r pethau y sonia'r Efengyl amdanynt.

Yn yr Efengyl y mae'r fargen orau gaed erioed – a'r gobaith yw y bydd llaweroedd yn dod i weld hynny drostyn nhw eu hunain. Ac os ydym yn ei chredu ceisiwn sôn amdani a thystio iddi yn y ffordd orau posibl er mwyn denu eraill ati.

JOHN PRITCHARD.

CABAN Y CWM CWM Y GLO

'Stafell Technoleg Gwybodaeth

Cyfnodau Mynediad Agored

Dydd Llun	11.30 – 4.00
Dydd Mawrth	9.00 – 2.00
Dydd Mercher	9.00 – 2.00
Dydd Iau	11.30 – 2.00
Dydd Gwener	9.00 – 4.00

Mae Caban y Cwm yn un o brosiectau Menter Fachwen

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

LLE GWALLT

**Crib
y
Cwm**

Pant y Mynydd
Cwm-y-glo

872169

Oriau agor:

Mawrth 10 – 5


Mercher 10 – 1

Iau 10 – 5

Gwener 10 – 7

Sadwrn 9.30 – 1

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID

Bangor

(01248) 354646

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED
Cyfarfu'r gangen leol yn Ysgol Gymuned Cwmyglo ddwywaith yn ystod y flwyddyn newydd.

Nos Lun Ionawr 20fed dan lywyddiaeth Pat Jones croesawyd Mr Dewi Jones i'r cyfarfod. Cafwyd sgwrs ddifyr ac addysgiadol ganddo ar flodau prin yr ucheldir. Trefnwyd y lluniaeth gan Elinor Williams a Mai Davies. Elinor Williams a gyflwynodd anrheg y mis ac fe'i henillwyd gan Verna Jones.

Nos Iau Chwefror 6ed bu aelodau'r gangen ar wahoddiad i Sefydliad y Merched Menai pryd y mwynhawyd datganiadau gan y tair chwaer Manon, Medi a Malan Vaughan Wilkinson o Gaernarfon.

Yng nghyfarfod nos Lun Chwefror 17eg croesawodd y llywydd Esme Dyson o Gaernarfon i drafod gemwaith hynafol o eiddo'r aelodau. Roedd nifer helaeth o ddarnau gerbron yr arbenigwraig a bu'n noson ddiddorol a phawb yn amlwg yn gwerthfawrogi llawer o gynghorion buddiol ar sut i warchod y cyfryw eitemau a'u trysori. Talwyd gair o ddiolch ar ran yr aelodau gan Alice Williams. Mae'r gangen yn ddiolchgar iawn i Esme Dyson am gyflwyno ei chydabyddiaeth i'r gangen leol o'r NSPCC. Carol

Houston baratodd y lluniaeth a chyflwyno anrheg y mis. Yr enillydd oedd Ifanwy Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Mawrth 17eg sef y cinio Gŵyl Ddewi blyneddol yn Country Manor ger Caernarfon.

DIOLCH Dymuna Muriel Evans, Cae Gwyddel ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod ei gwaeledd yn ddiweddar ac yn arbennig am yr ymweliadau ganddynt tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dyfod gartref.

CYDYMDEIMLAD Estynnwn gydymdeimlad dwys â theulu 21 Cae Garreg, Caernarfon ac â theulu Tros yr Afon yma ym Mrynrefail yn eu profedigaeth o golli y diweddar Tom Foulkes gynt o Haulfryn ar Ionawr 16eg.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD OEDFAON MAWRTH

2 Parch. Dafydd Ll. Hughes, Caernarfon am 5.30

9 Mr Richard Ll. Jones Bethel am 5.30

16 Mr Norman Closs Parry, Treffynnon am 5.30

23 Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 10.00

30 Parch Harri Parri, Caernarfon am 10.00

Dol Glwt a Beic i Baris

Yn ystod mis Awst eleni bydd cefnogwyr ac aelodau *Cymdeithas M.G.* yn beicio o Lundain i Baris i godi arian ar gyfer ymchwil, gofal ac addysg i'r rhai sy'n dioddef o'r afiechyd *Myasthenia Gravis*. Prin iawn yw'r nifer sydd wedi clywed sôn am yr afiechyd hwn; afiechyd sy'n golygu fod y dioddefwr yn colli rheolaeth ar y cyhyrau gyda'r canlyniad fod y corff yn mynd yn llipa – gan hynny'n rhoi iddo'r enw Salwch y Ddol Glwt.

Mae'r daith, fydd yn cychwyn yn Greenwich, Llundain, ac yn gorffen wrth odre Tŵr Eiffel ym Mharis, yn golygu beicio 285 o filltiroedd mewn pedwar diwrnod.

Mae tri o feicwyr o fro'r 'Eco' yn bwriadu cymryd rhan yn y daith nodedig, gan fod aelod o'u teulu yn dioddef o'r salwch. Yn ystod y misoedd nesaf bydd Anthony Rogers, Rhostryfan (Llanberis gynt), Dyfed a Dafydd Whiteside Thomas (y ddau o Lanrug) yn

ymarfer yn galed ar gyfer eu taith. Byddant hefyd yn chwilio am noddwyr, gan fod angen iddynt gasglu bron i £2,000 rhyngddynt cyn cael ymuno â'r fenter. Eisoes mae eu cyd-weithwyr yn EuroDPC, Llanberis a Celtest, Bangor, wedi dechrau cyfrannu tuag at y gronfa, ac yn ystod mis Mawrth, bydd Dafydd yn cynnal dosbarthiadau hanes teulu yn Llanrug i godi arian tuag at y daith.

Byddai'r tri yn falch o dderbyn unrhyw gefnogaeth gan unigolion neu gymdeithasau o fewn y fro. Gellir cysylltu am fwy o wybodaeth ar 01286 673515.

GWERSI PIANO

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013



GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I CYNgherddau a theatrau.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanyllion am ein teithiau, ffoniwch

ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

(Parhad o dudalen 4)

Gorchymyn Gwynedd, 30 m.y.a. dros dro - Croesffordd Tyddyn Hen, Bethel o'r 2il o Ionawr am chwe mis.

Cyhoeddwyd - Plismona - 'deud dy ddeud' nos Iau 23 Ionawr yng Nghanolfan Hamdden Arfon am 7.00

Cyflwynwyd Cynllun Drafft Gwynedd - Cynnal a Chadw Priffyrdd.

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Cyflwynwyd ei Còd Ymarfer anferth, ni ddangoswyd llawer o ddiddordeb!

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Gorsaf Beran - dau furlun.

White Peris, Dinorwig - newid defnydd o annedd yn lle byw i staff.

Moel y Glochdy, Deiniolen - Estyniad.

Tyddyn Forgan, Llanddeiniolen - dymchwel adeilad allanol ac estyn y Tŷ

Tir ger Tŷ Oer, Clwt y Bont - codi un annedd.

Nid oedd gwrthwynebiad i unrhyw gais yn ystod y mis.

Llwybrau

Pont Charlie, Bethel byth wedi ei hail agor - gofyn i Wynedd beth yw'r scyllfa.

Mater arall

Lluchiwyd pentwr o bapurau Wrexham Leader i Afon Caledffrwd, Clwt y Bont yn ddiweddar - adrodd i adran amgylchedd Gwynedd.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Myrna Owen ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ddiweddar, tra yn yr ysbyty ac wedyn adref.

CLWB 100 Y NEUADD. Enillwyd gwobrau Clwb 100 Tachwedd a Rhagfyr oedd:

Tachwedd. Alan Ginsberg, Celtic House (128) £50; Ceinwen Roberts, 34 Bro Eglwys (33) £25; Pauline Weatherby, 4 Bro Eglwys (27) £10.

Rhagfyr. Carys Wyn Jones, 45 Bro Eglwys (49) £50; Mrs M.C. Owen, 2 Bro Eglwys (46) £25; Janet Owen, 12 Stad Eryri (21) £10.

CLWB 100 CLWB PÊL-DROED. Enillwyd gwobrau Ionawr oedd:

1. Tecwyn Hughes, £100; 2. Gareth Jones, £50; 3. Dyfan Ellis Hughes, £25; 4. Huw Gwyn Jones, £25.

I ymuno cysylltwch â Mr Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl. Ffôn (01248) 671469.

MERCHED Y WAWR.

Cychwynwyd cyfarfod mis Chwefror trwy ganu Cân y Mudiad a chroesawyd pawb yno gan y Llywydd, Beti Owen. Braf oedd cael cwmni Rita Williams ar ôl cyfnod o anhwylder. Llongyfarchwyd y canlynol: Gwyneth Price ar enedigaeth wyres fach, Heledd Prys; Eirlys Sharpe ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar ac hefyd bump o blant yr aelodau ar ddod i'r brig mewn cystadlaethau chwythu corn, dan nawdd Cymdeithas y Bandiau Pres sef:

Manon Hughes, Siôn Hughes, Siôn Garth Owen, Rhys Hughes a Dewi Griffiths.

Diolchwyd i'r Parti Canu, dan ofal Deilwen, a fu'n cymryd rhan yng Ngwasanaeth y Plygain ac i bawb am noddi Glenys ac Eirlys yn y Distawrwydd Noddedig.

Hysbyswyd yr aelodau am y Cwis Cenedlaethol sydd i'w gynnal yng Ngwesty Victoria, Llanberis, a hynny ar nos Wener, 4 Ebrill. Bydd manylion pellach ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Dathlu Gŵyl Ddewi fydd hanes y gangen yng nghyfarfod y mis nesaf, yn Y Bistro, Llanberis a gofynnir i bawb dalu am y bwyd erbyn 3 Mawrth i Gwyneth Price. Y wraig wâdd oedd Eirian Roberts, sydd yn gweithio yn yr adran Clinique, yn Debenhams,

Bangor. a cahwsom noson gartrefol braf yn ei chwmni yn cyflwyno gwahanol agweddau o ofalu am y croen gan ddefnyddio nwyddau Clinique. Sharon Owen oedd y r aelod lwcus i gael colur ar ei hwyneb, ac erbyn diwedd y noson roedd hi'n edrych yn hardd iawn. Diolchwyd i bawb gan Gwyneth Jones ac Edwina Morris enillodd y raffl.

PENCAMPWRIAETH BANDIAU PRES. Bu nifer o ieuenctid yn cymryd rhan mewn cystadlaethau Pencampwriaeth Unawdau Gogledd Cymru yn Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Enillodd y canlynol fedalau a thystysgrifau sef, Manon Hughes a Siôn Hughes, Bryn Ogwen - Band Deiniolen; Siôn Garth Owen, Tŷr Ysgol - Band Porthaethwy; Rhys Hughes, Erddig - Band Llanrug. Enillodd Dewi Griffiths, Llwyn Eithin - Band Biwmares Darian y 'Wilkinson Sword' a hefyd y 'North Wales Shield'. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Mwy o luniau DIGON TEG



COLSYN!

Tydi'r Nadolig yn edrych mor bell yn ôl deudwch? Ond nid felly i deulu o Lanberis. Difethwyd ei cinio 'Dolig. Pan aeth y wraig i nôl y twrci o'r ffwrn ffendiodd yr anghenfil yn golsyn! Roedd y gŵr wedi edrych ymlaen yn arw at y

wledd a chlywyd ef o'i dacsu yn cyfarch rhywun ar y stryd, 'Fedra i ddim aros, dwi jest a llwgu. DA-FYDD cael twrci 'di rhostio a'n hoff lysieun, CABatsian.'

Pan gyrhaeddodd adref a gweld yr adfadwaith llosgol gofynnodd, 'Oes 'na rwbath ar ôl?'

'Dim ond darn bach,' oedd yr ateb swta.

'PA-DARN?'

'Dim ond y Parson's Nose!'

STEPHEN JONES

† Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol



GARETH GRIFFITH A'I GWMNI

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: 67 68 69 Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggco@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phroffiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Thenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

Atodiad Newyddion LLANRUG

MENTER NEWYDD. Bellach mae Owain Williams, Pontrug wedi agor Garej Cramia (ar Uned 4, Stad Brynafon) ble bydd yn atgyweirio a thrwsio pob math o geir.

Braf gweld bachgen ifanc o'r ardal yn mynd at i wasanaethu'r gymuned.

Pob lwc iddo yn y fenter hon.

CYSTADLEUAETH

Mae'r band yn cystadlu ym mhencampwriaeth Cymru yn Abertawe ar 15 Mawrth. Gavin Saynor yw'r arweinydd newydd ers mis Awst ac maent yn gweithio ar hyn o bryd ar y darn prawf. Gallwch glywed y darn yn cael ei berfformio, yn ogystal â ffefrynu eraill, ar noson y cyngerdd yn

Theatr Seilo ar 7 Mawrth. Ers rhai blynedd bellach mae'r band yn mynd o nerth i nerth gyda nifer o wynebaw newydd. Byddant yn gobeithio gwella ar y drydedd wobwr a enillwyd ganddynt yn Abertawe y llynedd.

Mi fydd y band yn ymarfer ar nos Fawrth, Mercher a lau cyn y gystadleuaeth o 7.30 - 9.30 ac mae croeso i bawb ddod draw i'r cwt i wrando.

BAND Llanrug

Cyngerdd
Dydd Gŵyl Dewi
Nos Wener, 7 Mawrth
am 7.30 pm

Theatr Seilo, Caernarfon

**Seindorf Llanrug
Côr Eryri
Côr Plant yr Ysgol
Gynradd
Ffion a Seindorf
Ieuenctid Llanrug**

Tocynnau £4/£3
gan aelodau y Seindorf
neu ffoniwch:

Alan (01248) 600933
neu Mike (01286) 675084

Cyngor Llyfrau Cymru
Castell Brychan, Aberystwyth
Ceredigion SY23 2JB

Annwyl Olygydd

DIWRNOD Y LLYER 2003

Fel y gwyddoch, o bosib, mae Diwrnod y Llyfr yn cael ei gynnal eleni ar 6 Mawrth ac mae'r Cyngor Llyfrau yn arwain y gweithgareddau yma yng Nghymru. Rydym wedi cysylltu ag ysgolion, llyfrgelloedd, mudiadau a sefydliadau gan eu hannog i gynnal gweithgareddau ar y dydd, a hyderwn y bydd pawb yn cael cyfle i ymuno yn yr hwyl.

Rydym yn awyddus hefyd i gael cefnogaeth y papurau bro eleni eto, ac i'r perwyl hwn paratowyd y croesair amgaeedig yn arbennig ar eich cyfer, i'w gyhoeddi yn rhifyn Chwefror neu rifyn Mawrth. Fel y gwelwch, nid yw'r dyddiad cau tan ganol mis Ebrill.

Er nad yw hi'n bosib i ni dalu i'r papur bro am gynnwys y croesair, rydym yn gobeithio y byddwch yn fodlon cydweithredu i hybu Diwrnod y Llyfr. Trefnwyd dwy wobwr arbennig, sef tocyn llyfr gwerth £30 i'r unigolyn cywir cyntaf ddaw allan o'r het, a £150 i'r papur bro fydd yn ysgogi'r ymateb gorau i'r gystadleuaeth. (Yn naturiol, byddwn yn ystyried cylchrediad pob papur wrth ddyfarnu'r wobwr honno.)

Gan ddiolch am eich cefnogaeth.

Yn gywir

DELYTH HUMPHREYS
Cyddlynedd Gweithgarwch



Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru.
o Audi i Zastava

website: www.a-y-w.co.uk

MOT

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed i'ch
ac yn ymestyn oes eich car




AVW **YSTAD CIBVN**

CAERNARFON (01286) 673559

GwalltGo

Stryd Goodman Llanberis
Siop torri a thrin gwallt Merched, plant a dynion.
Cysylltwch a Dilys neu Rhian

01286 872414

Oriau agor: Mawrth - Lau 9am - 5.30pm
Gwener 9am - 7.30pm; Sadwrn 9am - 4pm

Am lwythi pell ac agos, cysylltwch â'r
symudwr smart... Y cludwr clên...

TM JONES


Cil y Coed, Dwyran, Ynys Môn, LL61 6YD

Llwythi mawr a bach • Clirio Tai • Domestig a
Masnachol • Cyngor Cyfeillgar • Prisiau Cystadleuol

Ffôn: (01248) 430 126 • Symudol (07788) 703 659

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764
neu
W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORGHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

Royal Victoria Hotel LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer

**PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG**

**CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU**

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

CHWARAEON

Y Golofn Wâdd

Y colofnydd gwâdd y mis hwn yw **DYLAN LLYWELYN**, ymchwilydd i'r rhaglen *Sgorio*, aelod o dîm *Ar y Marc*, ac un o sefydlwyr yr elusen **GÔL**.

Roedd y plantos wedi gwirioni'n lân pan esboniodd Jeyhun nad oedd rhaid iddynt roi'r crysau ffwtbol yn ôl i'r dynion blêr, blinedig yr olwg, oedd wedi cyrraedd mewn fflyd o dacsis rhacs.

Rhaid dweud 'mod innau hefyd wrth fy modd yn gweld plant sydd heb ddim, yn wên o glust i glust yn derbyn... wel, cyn lleied a dweud y gwir. Hen grysau pêl-droed Valley Juniors, ambell bêl, hanner dwsin o grysau-T, a llond dwrn o luniau o Robert Page. Fe achosodd yr anrhegion yma wên fendigedig ar wynebau plant bach amddifad Cartre rhif 3 - rhif sylwch, nid enw - ac yna dawnsio, ac ysgwyd llaw yr ymwelwyr o 'Uels'. Pethau na fydd neb yn gweld eu colli gartref, ond yn anrhegion gorau 'rioed i'r Azeris siriol.

Ddiwedd y mis bydd Jeyhun yn teithio o Baku gyda Saleh a Rahim i wyllo tîm eu gwlad yn herio Cymru yn Stadiwm y Mileniwm. I goroni'r daith rydym wedi cael cadarnhad mae'r ddau blentyn fydd y mascots ar gyfer y gêm. Bydd eu hymwelïad â Chaerdydd yn agoriad llygaid iddynt, fel roedd i'n criw ni wrth ymweld â sefydliadau y plant amddifad yn Azerbaijan.

O'r bwriad gwreiddiol o hel pres a chyflwyno ychydig o nwyddau i'r plant anghenus, tyfodd yr elusen *Apêl Azerbaijan*, sydd erbyn hyn wedi datblygu yn elusen swyddogol dan yr enw syml, **GÔL**.

Mi fydd yr hogia 13 oed yn eithriadol o brysur - aros efo teulu yng Nghasnewydd, ymweld ag

ysgol leol, cyfarfod y ddau dîm, ac yna'r wefr o fod yn fascot.

Mae'r tri cyfaill o Baku yn hedfan adref ar y dydd Llun. Gyda llaw, mae cwmni awyren British Mediterranean wedi rhoi'r daith yn rhad ac am ddim i'r tri. Ar yr un diwrnod byddwn ni yn hedfan am Belgrád ar gyfer gêm dyngedfennol Cymru yn erbyn Serbia a Montenegro ar y nos Fercher.

Taith arall, gwlad arall a phrosiect arall. Rydym eisioes wedi derbyn mwy o ddillad pêl-droed - o Ffynnon Taf, Rhuthun, ac Everton, a phêl newydd sbon gan eich golygydd chwaraeon. Mae'r trefniadau eisioes wedi eu gwneud i ddosbarthu'r nwyddau mewn cartref plant ym Melgrad.

Mae haelioni pobl Cymru ben baladr wedi'n rhyfeddu ni yn ystod y misoedd diwethaf, ond fel hogia Marc Hughes, megis dechrau rydym ni ar hyn o bryd. O leiaf mae'r holl baratodau yn ein cadw ni'n rhy brysur i feddwl gormod am y posibilrwydd o gyrraedd Portiwgal y flwyddyn nesa'.

Am fwy o fanylion, gellir cysylltu â Dylan ar 07710 160352 neu ar Ebost: golappeal@gol.com.

Potio'n Ifanc

Yn y rhifynnau nesaf byddaf yn caisio rhoi sylw i'r amrywiaeth chwaraeon sy'n cael eu cynnal yn Neuadd Goffa Llanrug. Dechreuaf gyda un o dimau ifancaf yr ardal, sef tîm snwcer Llanrug Blacks.

Mae'r tîm, sydd i gyd o dan 17 oed, yn chwarae yn ail adran cynghrair Bangor a'r Cylech. Y noson roeddwn i draw roeddent yn paratoi ar gyfer gêm ddarbi yn erbyn un o dimau Llanberis. Dyma bentref arall ble bu tyfiant sylweddol yn y diddordeb mewn chwarae snwcer. Braf fuasai cael enw 'mawr' fel Mark Williams o'r gogledd.

Aelodau'r tîm a'u hoedran yw: y capten Jake Burstn 14, Gareth Jones 14, Cefin Roberts 16, Dylan Eddy 13, Trefor Evans 17, Aled Williams 13, a Dafydd Williams 14.

Er yng nghwaelodion y gynghrair, cafwyd buddugoliaeth dda o 4 - 2 yn erbyn Mountain Rangers, y tîm sydd ar y brig. Mae'r stori yn wahanol pan maent yn chwarae mewn cystadlaethau tu fewn i'w hoedran. Cafwyd chwip o gêm yn erbyn Waunfawr yn rownd derfynol Cwpan Dan 17 y Gynghrair.

Gyda'r sgôr derfynol yn dair gêm yr un rhaid oedd cael ffram ychwanegol a'r Waun enillodd.

Mae cryn edrych ymlaen at ail rownd cwpan Pattison a gêm ddarbi arall yn erbyn Llanberis.

Y Darans ar i Fyny

Mae'r Locos yn ôl ar y cledrau ac wedi rhediad da yn ddiweddar maent ganddynto gyfle o hyd i gipio'r bencampwriaeth. Rhaid aros felly i weld a gawn ni gemau darbi gyda Llanrug y tymor nesaf.

Bu ieuencid y ddau bentref yn brwydro yn ddiweddar yn lifrau Capel Coch a Chapel y Rhos.

Yr achlysur oedd cystadleuaeth 5-bob-ochr yr ysgolion Sul. Denwyd timau o Ben Llŷn, Arfon a Môn i ganolfan hamdden y Cofis.

Yn yr oedran cynradd cyfarfu'r ddau gapel lleol yn y rownd gyn-derfynol. Cafwyd gêm dda gyda Chapel Coch yn ennill 2-1 gyda gôl hwyr. Yn y rownd derfynol eurodd criw Llanberis dîm Seilo, Caernarfon o 2-0. Sgoriwyd y ddwy gôl gan seren y gystadleuaeth, Llion Jones. Aelodau'r tîm buddugol oedd Ceri Hughes, Tomos Owen, Tomos Williams, Llion Jones ac Aled Hughes. Byddant yn cynhyrchio'r ardal yn y rowndiau terfynol yn Aberystwyth.

Yn anffodus, ni lwyddodd Capel Coch i gyflawni'r dwbl, gan iddynt golli yn y rownd derfynol o 5-4 yn erbyn tîm Canolfan Noddfa. Sgoriwyd goliau Capel Coch gan Ian Williams a thair gan Carwyn Jones. Diwrnod

da i'r Jonesiaid. Aelodau'r tîm oedd Tomos Parry, Hywel Pitts, Gwyn Jones, Carwyn ac Ian.

Beth yw Proffesiynol

Er i mi chwarae pêl-droed tan roddwn yn 37 a chriced tan yn 53, fues i erioed yn chwaraewr proffesiynol. Os cofiaf yn iawn y mwyaf ges i am chwarae pêl-droed oedd 'pres te' o bunt gan ambell glwb. Efallai mai dyna faint roeddwn yn werth. Ym myd criced teimlaf fy mod wedi bod yn 'broffesiynol' - mewn agwedd o leiaf.

Hyd ddiwedd fy 'nghyrfa' roeddwn yn ymarfer yn rheolaidd ddwy waith yr wythnos. Drwy'r blynyddoedd datblygodd fy nghrefft drwy chwarae yn erbyn chwaraewyr gwell, mewn nifer o gemau sirol, Gogledd Cymru a Chymru. Dyma sut mae dawn gynhenid, o'i chyplysu â hyfforddi da yn dwyn ffrwyth.

Teimlaf fod hyn wrth wraidd problem Undeb Rygbi Cymru ar hyn o bryd. Nid oes gennym ddigon o chwaraewyr cynhenid Cymreig i gyfiawnhau y nifer o glybiau. Rwy'n cytuno â'r dull rhanbarthol, a thorri i lawr ar y chwaraewyr costus o dramor. Mae i fyny i'r chwaraewyr ieuanc ennill eu lle drwy ymroddiad yn y carfanau elitaidd. Bydd y gemau a'r hyfforddi o safon uwch, sy'n arwain gobeithio at fwy o chwaraewyr o wir safon rhyngwladol.

Un ffaith ddiddorol i orffen. Mae tîm dan 21 Cymru wedi curo eu cyfoedion Seisnig yn y pum gêm ddiwethaf. Beth yw'r gwendid felly yn natblygiad yr oedran yma i'r tîm cenedlaethol llawn? Mae ystadegau yn dangos fod URC wedi gwario 60 miliwn i noddio'r gêm - ar wahân i gostau'r stadiwm yn y blynyddoedd diwethaf! Beth sydd gennym i ddangos am y gwariant? Mewn oes broffesiynol, amaturaid iawn yw rheoliad a threfniadaeth y gêm.

Mae Bywyd yn yr Hen Goesau

Eto elani, mentrodd tîm 'Hen Stojars' Bethel ar y cae am eu gêm Nadolig flynyddol. Teithiwyd i Benrhyndeudraeth bell, a chafwyd digon o goliau - ac ambell benderfyniad amheus gan y dyfarnwr - wrth i Fethel ennill o 4-3.

Gyda'r teulu yn gweiddi bygythions oddi ar y llinell, gêm dawel gafodd Pete Caffey yn ei fro enedigol ac, er i Bill Griffiths gael ei anaf blynyddol, brwydrodd ymlaen. Mae Dewi Rowlands yn 'datblygu' yn asgellwr chwim - yn enwedig am ei oed - ac yn gwybod y 'ffordd' am y gôl er mai 'ffordd osgoi' oedd ambell ergyd.

Diwrnod da, a llawer iawn o ddiolch i berchennog y Griffin am ei groeso hael wedi'r gêm. Blwyddyn felly i'r cymalau esmwytho, yn barod erbyn y frwydr nesaf.

